

# CLONC

[golygydd@clonc.co.uk](mailto:golygydd@clonc.co.uk)

ISSN 1753-1071



Rhifyn 257 - 50c  
Hydref 2007

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

**Noson  
Lansio'r  
Gyfrol**



**Tudalen  
newydd  
yr ifanc**



Tudalen 15

**Gordon  
Ramsay yn  
Llambod**



Tudalen 14 ac 18

## Edrych ymlaen ac edrych yn ôl



Safle ac adeiladau newydd  
Ysgol Gynradd Ffynnonbedr  
ger yr Ysgol Uwchradd, a'r plant  
yn mwynhau Dawns a Bwyd a  
baratowyd gan Gyngor y Dref.



Ysgol Gynradd Llanwenog  
yn dathlu 140 o flynyddoedd  
gyda chyn ddisgyblion o'r  
ganrif ddiwethaf a Margaret  
Evans, athrawes; Eleri Davies,  
cogyddes a Siân Davies;  
pennaeth yn torri'r gacen.



# Pwy yw pwy?

## Golygyddion:

Hydref Elaine Davies, Pennant, Alltbylaca 480526  
Tachwedd Marian Morgan, Glasfan, Drefach 480490  
e-bost: golygydd@clonc.co.uk

Tîm Golygyddol: Eifion ac Yvonne Davies, Elaine Davies,  
Rhian Jones, Dylan Lewis a Marian Morgan

## Gohebwyr Lleol:

Cellan Meinir Evans, Rhydfechan 421359  
Cwmann Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen 422922  
Cwmsychbant Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015  
Llanwenog/Drefach Mary Davies neu Eifion Davies  
Ffaldybrenin/Ffarmers Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers 01558 650507  
Gorsgoch Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod 434238  
Llambled Janet Evans, Haulfryn 422856  
Llanfair Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn 493407  
Llangybi a Betws Iorwerth Evans, Greenwell 493484  
Llanllwni Dewi Davies, Glanafon 480218  
Llanwnnen Meinir Ebbsworth, Brynamlwg 480453  
Llanybydder Menna Jones, Ceginau Lifestyle 480257  
Pencarreg Linda Thomas, Dolgwm Uchaf 422270

## Bwrdd Busnes:

Cadeirydd Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349  
e-bost: cadeirydd@clonc.co.uk  
Is-Gadeirydd Twynog Davies, Frondolau, Llambled 422880  
Ysgrifenyddes Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015

# Beth yw beth?

Trysorydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015  
e-bost: ysgrifennydd@clonc.co.uk  
Swyddog Dosbarthu Eifion Davies, Afallon, Drefach 480590  
e-bost: bedwyr@btopenworld.com  
Teipyddion Nia Wyn, Maesglas 480015  
Joy Lake, Llambled

Ceidwad y Camera Janet Evans, Haulfryn, Llambled 422856  
Ffotograffydd Tim Jones, Llainwen 422644  
Argraffwyr Gwasg Aeron, Aberaeron 01545 570573

## Prosiect Papurau Bro Ceredigion a Sir Benfro:

Megan Jones 23 Stryd Fawr, Llambled 423410  
Guto Jones 36-38, Pendre, Aberteifi 01239 621828

Gwerthfawrogi gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes. Mae cyfraniad pob un yn bwysig.

• Mae rhannau o Clonc ar y we ar safle Cymru'r Byd y BBC:

[www.bbc.co.uk/cymru/canolbarth/papurau\\_bro/clonc](http://www.bbc.co.uk/cymru/canolbarth/papurau_bro/clonc)

• Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwyr i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn CLONC.

• Ewch a'ch newyddion at eich gohebydd lleol.

• Gellir gadael newyddion tu ôl y cownter yn siop bapurau Caxton Hall, Llambled.

• Gellir e-bostio newyddion at y golygydd yn syth: [golygydd@clonc.co.uk](mailto:golygydd@clonc.co.uk)

• Mae croeso i chi ddefnyddio eich camera eich hun. Defnyddiwn luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun.

• Croesawn luniau digidol ar ddisg neu CD, ac e-bost i [cadeirydd@clonc.co.uk](mailto:cadeirydd@clonc.co.uk).

• Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur.

# Siprys

## Dafydd Jones – Dai gwallt hir.

Roedd gan ganran helaeth o'r dyrfa ddaeth i wyllo pasiant Cwmni Gobaith ar Dafydd yn Theatr Felinfach yn ddiweddar eu hatgofion personol amdano. Rwy'n cofio ei gynorthwyo gyda chriw o fechgyn eraill i dynnu'r cert dros y rhiw ger Capel Bwlchgwynt, Tregaron. Un yn dweud mai Dafydd a'i dysgodd e i fwyta winwns; un arall yn dweud ei fod ar ei ymweliad â'r dre yn Llambled ac yn galw yn un o'r siopau ac yn eu dysgu sut i sefyll yn syth – rhoi gwers fach ymarfer corff iddynt. Mae'n dda fod cynhyrchiad fel yma yn ysgogi cymaint o drafodaeth a dwyn cymaint o atgofion yn ôl.

## Cerdded i'r ysgol.

Dyna drueni fod yr arferiad yma ar drai yn ein trefi ac yng nghefn gwlad. Y car sy'n cael y bai. Yn gynta mae'n llawer rhy gyfleus, ac yn ail mae'n beryglys cerdded ar ein heolydd. Mae cymaint o'n gyrrwyr yn diystyru pob arwydd cyflymder ac yn defnyddio'n ffyrdd - fel y dywedodd cymeriad ar hewl cwmins Llangybi slawer dydd wrth 'nhad: "Mae'r bois 'na sy gyda chi Tom yn mynd heibio ffordd hyn fel tase nhw'n cymryd short cut i uffern". Beics oedd yn cael y bai – tipyn gwahanol i'r lorïau anferth a'r ceir cyflym a'r diffyg palmentydd yng ngefn gwlad. Mae'n rhaid i ni o bob oedran sylweddoli fod cyflymder yn lladd ac mae llawer o'n gyrrwyr o bob oed, yn dal i gymryd 'short cut' i rywle!

## Tai ar y we.

Wedi clywed cwyno yn ddiweddar fod busnesau a thai yn dod ar y farchnad ac yn cael eu hysbysebu yn gyntaf ar y We a dim yn dod ar y farchnad ac yn cael eu hysbysebu yn gyntaf ar y We a dim arwydd yn ymddangos yn lleol nes bod y cyfan wedi'u gwerthu. Mae hyn yn drueni gan fod cyfleoedd i drigolion lleol yn mynd ar goll.

## Dathlu.

Collais ychydig o ddathliadau ysgol Llanwenog yn 140 oed gan fod Coleg y Drindod Caerfyrddin yn dathlu 50 mlynedd ers i ferched gael mynediad i'r coleg. Bu'r ddau achlysur yn llwyddiant mawr. Hyfryd oedd cyfarfod â chyd fyfyrwyr oedd wedi dechrau yr un pryd â'r merched. Rhai heb newid dim ac eraill wedi heneiddio llawer – fi yn eu mysgr.

Bu'r ysgol a'r plwyf yn ddiwyd iawn yn casglu lluniau'r cyn ddisgyblion ac roedd yr ysgol dros y Sadwrn a'r Sul yn rhoi cyfle i rieni a chyn ddisgyblion weld y rhain a dwyn atgofion am eu dyddie ysgol. Roedd copi o adroddiad y 'Llyfrau Gleision' ar ysgol 'Pentre Rhys' oedd mewn ysgubor hanner ffordd rhwng Drefach a Llanwnnen. Dyma frawddeg safodd yn y cof. "There were 18 uncouth pupils in the school". Dyna ffordd i siarad am ddisgyblion ysgol. Y feirniadaeth oedd diffyg Saesneg. Dyna fe, yr arolygwyr oedd yn uncouth.

Diolch fod yr oes wedi newid. Pob hwyl am y tro.

Cloncynd.

# Dyddiadur



## HYDREF

- 1 Cwrdd Diolchgarwch Bethel, Silian am 7y.h.
- 4 Cwrdd Diolchgarwch Seion, Cwrtnewydd am 7y.h.
- 5 Noson Moes a Phryn yn Neuadd Seion, Cwrtnewydd dan nawdd Urdd y Benywod, Capel-y-Bryn am 7:30y.h.
- 6 Noson Caws a Gwin yn Neuadd Sant Iago Cwmann – Elw at Sefydliad Prydeinig y Galon.
- 10 Sioe Ffasiwn Ysgol y Dderi - Siop duet yn Neuadd Coleg Llambled.
- 11 Cwrdd Diolchgarwch Caersalem, Parcyrrhos am 7y.h.
- 11 Cwrdd Diolchgarwch Ysgol Llanwnnen yn Eglwys St Lucia Llanwnnen am 7y.h. Croeso cynnes i bawb.
- 12 Cyngerdd gan Leisiau'r Werin ac eraill yn Neuadd Seion, Cwrtnewydd am 7:30y.h. dan nawdd Pwyllgor Lles Llanwenog.
- 15 Cwrdd Diolchgarwch C.Ff.I. Llanwenog yng Nghapel Alltbylaca am 7:30y.h. yng ngofal y Parch Goronwy Evans.
- 17 Cwrdd Diolchgarwch Aberduar, Llanybydder am 2y.p. a 7y.h.
- 18 Cwrdd Diolchgarwch Capel-y-Cwm, Cwmsychpant am 7:30y.h. gyda'r Parch Eileen Davies, Llanllwni yn pregethu.
- 20 Noson gyda Paul Dazzely, Rhys ap Hywel (Jason Pobol y Cwm) yng Nghlwb Rygbi Llanybydder am 8:30y.h. Tocynnau £6. Elw tuag at Ymchwil Cancr Cymru.
- 21 Oedfa'r Ifanc yn Noddfa, Llambled am 3:30y.p.
- 21 Cyngerdd Côr Merched Corisma yng Nghapel Parcyrrhos.
- 21 Cwrdd Diolchgarwch Capel Alltbylaca am 6y.h. yng ngofal y Parch Goronwy Evans.
- 27 Eisteddfod Gadeiriol Pumsaint. Manylion pellach ar 01558 650292 neu 01558 650401
- 28 Cymanfa Ganu Brenhines C.Ff.I. Ceredigion yng Nghapel Beulah ger Castell Newydd Emlyn. Arweinydd Dai Jones, Llanilar.

## TACHWEDD

- 1 – 3 Eisteddfod C.Ff.I. Ceredigion.
- 3 Cyngerdd gan Gôr Godre'r Aran yn Neuadd Bro Fana, Ffarmers am 7:30y.h.
- 10 Cwrdd Diolchgarwch Bethel, Parcyrrhos am 7 o'r gloch
- 10 Gŵyl Gerdd Dant Ystrad Fflur ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid.
- 24 Arwerthiant Blynnyddol Seion, Cwrtnewydd am 3y.p.
- 29 Ffair Lyfrau, Stondinau 'Dolig a Bingo yng Ngwesty'r Grannell, Llanwnnen am 7y.h. gan Ysgol Llanwnnen.

## HYDREF 2008

- 18 Cyngerdd Corau Meibion Unedig Ceredigion ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid.

## Hydref

1982. Llambled. Yr Athro Marks yn ymddeol o'i swydd fel Darlithydd Uwch yn Adran y Gymraeg wedi 26 mlynedd. Eisteddfod. Sefydlu Pwyllgorau ac Is-bwyllgorau Eisteddfod '84. Swyddfa'r 'Steddfod uwchben siop y P&D Co-op. Cwrtnewydd. Dosbarth Efrydiau Allanol yn dechrau, y darlithydd - Dr. Evan James. Llanybi. Croesawu Ken Evans, Maesyfelin yn ôl o'r Falklands  
1983 Llambled. Dynion y Frigâd Dân yn ymladd y tân yn 'Amoco', Aberdaugleddau. Noson i anrhydeddu Nyrs Meg Morris - yn ymddeol fel Ymwelydd Iechyd. Llanybi. Ail-agor Capel Maesyffynnon  
1984 Llambled. Siom o weld rhai o'r arwyddion Cymraeg yn cael eu tynnu i lawr yn syth wedi'r Eisteddfod. Galw am fwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn siopau'r dre. 200 o dai i Lamberd? Gorsgoch. Y Parch. Olaf Davies yn bedyddio 8 o bobol ifanc ym Mis Awst a 4 arall ym mis Medi yn yr awyr agored. Cwmsychpant. Rasmus jalopi.

1985 Cellan Ymgrych 'Curid Calon' i godi ymwybyddiaeth am iechyd corfforol - dosbarthiadau cadw'n heini a bwyta'n iach. Llanybi. Dosbarthiadau 'Cerdd Dafod' Roy Stephens yng Nghanolfan y Dderi bob nos Iau. Golygyddol. Canmoliaeth i rai o siopau'r dre' sydd wedi gosod arwyddion Cymraeg - lle i wella yn y Banciau!

1986 Cwmann. Aled Williams, Y Fedw yn ennill Medal Aur yng nghystadleuaeth Enduro yn yr Eidal Llanybydder. Llun Cwmni Drama o'r 30au. Llanybi. Capel Maesyffynnon yn dathlu 150. Llambled. 2 ymladdwr tân yn ymddeol: Delme Harries (23ml) ac Aneurin Jones (26 ml)

1987. Yr Ysgol Gyfun. Gweithgareddau codi arian i gael Bws Mini i'r ysgol. Llambled. Llyfr o waith Miss Eiddwen James ar werth, - yr elw i gyd tuag at 'Cymorth Cristnogol'.

1988 Llanwnnen. Cyflwyno tysteb i Mrs. Olwen Williams ar ei hymddeoliad fel Post-feistres y pentref am dros 50 mlynedd. Croeso i Bill a Barbara Cooper i Swyddfa'r Post. Llanybi. Dadorchuddio cofeb yng Nghanolfan y Cilgwyn i Mrs. Edith Williams, cyn Brifathrawes Ysgol Llanybi.

Llambled. Dilys a Glyn Jones yn ymadael o'r Llew Du. Yr Ysgol Gyfun. Cyflwyno cyfrolau o Gyfrifiadau'r (Censuses) bedwaredd ganrif ar bymtheg i bentrefi'r ardal. Penllanw 5 mlynedd o waith gan y disgyblion.

1989 Addysg UCAC yn trefnu cyfarfod cyhoeddus yn galw am ysgol ddwyieithog i Lamberd. Llambled/Cwmann. Colli penteulu a chymwynaswr bro, - Mr. W.D. Lewis, Tanlan. Gary Slaymaker - Rhaglen radio bob nos Wener. Cwmsychpant. Frank Richards, Blaenllain yn derbyn tystysgrif y Gymdeithas Amddiffyn Bywyd am achub bywyd gŵr yn Llandysul o'r tân yn ei gartref.

1990 Llanybydder Tîm rygbi'r pentre yn chwarae yn erbyn Tîm y Sosban, Llanelli er mwyn codi arian i Victor Morris. Sefydlu Clwb Pêl-droed newydd yn y pentre. Llambled. Côr Brethyn Cartre a Delyth Medi yn canu i Gymry Llundain  
1991 Llanybydder. Elwyn Davies yn agor festri newydd Aberduar. Sefydlu Clwb Pel-droed newydd yn y pentre'. Cwrtnewydd. 'Ffair Wenog' yn codi arian at Eisteddfod Aberystwyth.

1992 Llanybydder Ysgol Llanybydder yn ennill Tarian diwylliant Alun. R. Edwards fel yr ysgol mwyaf gweithgar yng ngweithgareddau Llyfrgell Dyfed. Cadwraeth. Rhodri Thomas, Cellan, a Daniel Jones, Llanwenog yn ennill gwobrau cendlaethol am ysgrifennu am 'Cadwraeth a bywyd cefn gwlad'

1993 Radio Ceredigion Opera Sebon 'Bontlwyd' yn dechrau. Gorsgoch. James Lloyd (Llain gynt) wedi ei ddyrchafu yn 'Superintendent' gyda Heddlu De Cymru. Llanllwni. Tai ardal Abergiar dan 2 droedfedd o ddŵr. Miss Eluned Jones, Plasnewydd yn ymddeol fel gofawraig yr ysgol wedi 32 o flynyddoedd.

1994 Llanwenog. Gillian Jones, Meysydd yn ennill Coron Pantyfedwen a Marian Davies, Maesnewydd y gadair dan 25. (Elsie Reynolds yn ennill y Fedal Ryddiaith). Llambled. Gwasanaeth dwyieithog ar gael yn Banc y Nat. West. Y Gymdeithas Drafod wedi bod ar daith yn Norfolk.

1995 Llambled. Llyfrgell newydd i Ysgol Ffynnonbedr. Llanwnnen. Yr ysgol yn ennill Cystadleuaeth Gofal Cefn Gwlad i ysgolion cynradd.

1996 Cwrtnewydd. Cyn-ddisgyblion yn cofio 3 o gyn-athrawon. Neuadd Seion dan ei sang gyda 2 noson o gyngherddau. Llambled. Mr a Mrs Olifer Williams yn symud i Gaerdydd. Llanybydder. Ad-uniad Staff Ysgol y Dolau.

1997 Llambled Gwyn Lewis a Gwynfor Lewis yn mynd â rhoddion i Bosnia a Croatia. Merched y Wawr yn dathlu 25. George Gibbs yn 80 oed. Codi arian at Uned Gofal Dwys y Galon i blant yn Ysbyty'r Waun, Caerdydd. Cwrtnewydd, Siwper Jim yn arddangos llestri Abertawe yn Festri Seion, - codi arian at Eisteddfod yr Urdd '99

1998 Llambled. Agor Siop a Swyddfa'r 'Steddfod yn Neuadd y Dre Llanybydder. Tymor llwyddiannus eto i'r Tîm Criced - Pencampwyr Cyngrhair Gorllewin Cymru am y 3ydd flwyddyn yn olynol. Hanes Cwmni Drama Llanybydder a Llanllwni 1930-60

1999 Gorsgoch. Apêl y Gors yn codi £36,000 at Uned Chemotherapy Glangwili. Llanybydder. Y Parch Wyn Vittle yn dathlu 40 mlynedd yn y weinidogaeth gyda'r Bedyddwyr. Llambled. Hanna Lewis yn cymryd rhan yn y gyfres 'Marinogion' ar gyfer S4C



## Gwahoddiad i Noson Lansio'r Llyfr

Cyhoeddir llyfr Cymraeg newydd yn llawn o erthyglau am bobl yr ardal hon o dan y teitl 'Cymeriadau Bro'. Y cyn swyddog ADAS Twynog Davies o Bentrebach, Llambled yw awdur 44 o'r portreadau a gyhoeddwyd yn wreiddiol yn y papur hwn.

Mae'r cymeriadau yn cynnwys wynebau cyfarwydd fel y Gweinidog Amaeth newydd yn y Cynulliad Elin Jones AC (Tynllyn Llanwnnen gynt), y cyn bostfeistr a'r tenor enwog Timothy Evans, y newyddiadurwr Dylan Iorwerth, Alltyblaca yn ogystal â'r awdur adnabyddus y diweddar Islwyn Ffowc Elis.

Mae rhai o'r cymeriadau eraill yn cynnwys Pencampwraig Bowls Cymru Anita Williams, Cwmann, Y Saer Maen o Lanybydder Dennis Jones, perchennog siop dillad dynion yn Llambled y diweddar Daniel Davies, arlunydd o Lanfair Clydogau Aerwen Griffiths, arwerthwr o Lanllwni Dewi Davies a phrifathro Ysgol Uwchradd Llanbedr Pont Steffan Dylan Wyn.

Mae'r llyfr yn cynnwys portreadau o bobl ifanc hefyd sydd wedi ymgartrefi a gweithio yn lleol fel Dafydd Mills, Ffynnonfair, Rhys Williams, Bayliau a Sion Jenkins, Cathal.

Dywedodd Dylan Lewis y golygydd "Dyma lyfr diddorol iawn am bersonoliaethau lleol o bob cefndir galwedigaethol. Dyma lyfr i'w drysori gan drigolion lleol ac eraill â diddordeb yn ffordd o fyw yr ardal hon. Y cyfan wedi eu hysgrifennu gan awdur sydd wedi dod i adnabod y cymeriadau'n dda."

Lensir y gyfrol yng Ngwesty'r Grannell, Llanwnnen ar nos Iau 25 Hydref am 7 o'r gloch. Os ydych wedi tanysgrifio i'r gyfrol, dewch i gasglu'ch copi ar y noson. Os hoffech fynychu, cysylltwch ag ysgrifenyddes Clonc erbyn Dydd Iau 18 Hydref.

Bydd y llyfr ar werth mewn siopau lleol ar ddiwedd Hydref am £4.95. Anrheg ddelfrydol ar gyfer y Nadolig! Dewch i brynu'ch cyflenwad yn y Noson Lansio.



Gwahoddiad i...

## Noson Lansio 'Cymeriadau Bro' gan Twynog Davies

Gwesty'r Grannell, Llanwnnen

Nos Iau 25 Hydref 2007 am 7 o'r gloch

Hoffwn fynychu Noson Lansio 'Cymeriadau Bro'

Enw: \_\_\_\_\_ Nifer: \_\_\_\_\_

Cyfeiriad: \_\_\_\_\_

Rhif Ffôn: \_\_\_\_\_

Dychwelwch y darn hwn erbyn 18 Hydref 2007, at: Yr Ysgrifenyddes, Maesglas, Drefach, Llanybydder, SA40 9YB



**Cor Meibion Cwmann a'r Cylch**

Ar ol seibiant dros fis Awst, mae'r côr wedi ail ddechrau gyda thymor arall. Oes yna fechgyn sydd bellach wedi mynd dros oedran yr Urdd neu'r Ffermwyr Ieuanc – yna beth am ymuno â'r côr? Mae practis bob nos Fercher am 8 o'r gloch, yn festri Brondeifi ar hyn o bryd. Bydd yna groeso cynnes i chwi.

**Priodas Aur**

Llongyfarchiadau cynnes i Gwilym a Phyllis Price, Brynderi ar ddathlu eu Priodas Aur ar 14 o Fedi. Gobeithio eich bod wedi mwynhau'r dathlu. Llongyfarchiadau hefyd i Eric a Avril Williams, Y Fedw a ddathlodd eu Priodas Aur ar 28 o Fedi. Gobeithio eich bod chwithau wedi mwynhau'r gwyliau yn Nhwrci.

**Pen-blwydd Arbennig**

Llongyfarchiadau i Gerwyn Morgan, 12 Heol Hathren ar ddathlu ei ben-blwydd yn 70 oed yn ddiweddar.

**Gwellhad Buan**

Gobeithio fod Sheila Jones, 10 Nantyglyn yn parhau i wella yn dilyn y gwmp a gafodd. Ond mae erbyn hyn wedi dod nôl i Ysbyty Tregaron.

**Diolch**

Dymuna Gwilym a Phyllis, Brynderi ddiolch i'w teulu, cymdogion a ffrindiau am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur eu Priodas Aur yn ddiweddar. Diolch yn fawr i bawb.

**Sefydliad y Merched**

Dechreuwyd y tymor newydd yn dilyn gwyliau'r Haf drwy fynd ar wibdaith i lawr i Landysul i ymweld â gweithdy Telynau Teifi. Bu Iestyn yn ein tywys oddi amgylch y gwahanol ystafelloedd, yn egluro'r gwaith i ni ac yn adrodd peth o hanes y traddodiad adeiladu telynau yng Nghymru. Alan Shires fu'n gyfrifol am sefydlu'r fusnes ond erbyn hyn mae'n fenter gymunedol. Derbyniwyd cymorth ariannol o Ewrop a gan Gyngor Sir Ceredigion i'w sefydlu. Diolchwyd i Iestyn gan Avril.

Aed ymlaen wedyn i Dafarn Prengwyn lle'r oedd pryd blasus o fwyd yn aros amdanom.

Cyn mynd am adre, cawsom gyfarfod busnes byr, pryd y croesawodd y llywydd, Noeleen, bawb yn ôl wedi'r gwyliau a dymunodd yn dda i'r rhai oedd wedi bod yn achwyn yn ystod yr Haf. Soniodd yn arbennig am Mrs. Maggie Jones, sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd yn derbyn triniaeth yn dilyn cwmp yn ei chartref.

Gwnaed trefniadau ar gyfer y ginio flynyddol sydd i'w chynnal eleni yn y Goose & Cuckoo yn Llangadog,

nos Lun gyntaf mis Hydref.

Gofynnwyd i ni fod yn gyfrifol am yr arlwyo yn Ffair Ram y Sadwrn canlynol a gwnaed y trefniadau angenrheidiol.

Wedi i'r llywydd ddiolch i Gwyneth yr ysgrifennydd am drefnu'r noson, aethom adref yn hapus wedi cael amser wrth ein bodd!

**Clwb 225 Medi 07**

1. Alun Williams, 70 Bryn y Wawr, Cwmann, 2. Anita Williams, Gwel y Coed, Cwmann, 3. Howel Herbert, 4 Cysgod y Coed, Cwmann, 4. Mrs. & Mrs Sid Mason, Bryn Dolau, Pumpsaint, 5. Eifion Davies, Rhos Dolau, Pumpsaint, 6. Ieuan Jenkins, Pennant, Rhydcymerau, 7. Gareth Jones, Cilerwsg, Creuddyn Bridge, 8. Mr. & Mrs. Eddie Thomas, Ardwyn, Cwmann, 9. Helen Davies, Tan yr Esgair, Cwmann, 10. Wynford Thomas, Pant y Gwin, Cellan.

**Clwb 170 Medi 07**

1 Llinos Jones, Araul, 2. May Evans, Lan y Wenarth, 3. Irfon Williams, Bryneiddig, 4. W Richards, Maesteify, 5. Shaun Davies, Pleasant View, 6. G. Evans, Fferm Felinfach, 7. Kelly James, 15 Bro Llan, 8. V. James, Caeralaw, Cwmann, 9. Rhian Jones, Hafod Cot, 10. Glyn Mason, Treherbert St.

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau i Gethin Morgan, Llys Penparc am ei lwyddiant ysgubol wrth ddangos ei gasg o'r enw Apricot yn y Dosbarthiadau Tywysydd Ifanc. Cafodd yr ail wobwr yn Sioe Llangeitho, y cyntaf yn Cilycwm a Ffarmers ac yn Llandysul cafodd eto'r wobwr gyntaf ac aeth ymlaen i gipio'r Bencampwriaeth. Hoffai Gethin ddiolch i'r rhai sydd wedi ei hyfforddi. Pob lwc i ti yn y dyfodol, Gethin.

**Eglwys Sant Iago**

Cynhaliwyd gwasanaeth teuluol o Ddiolchgarwch yn yr eglwys fore Sul 23ain Medi dan arweiniad y ficer yr Hybarch Andrew John. Braf roedd gweld yr eglwys yn llawn i roi diolch am y cynhaeaf eleni eto ac am haelioni Duw i ni drwy'r flwyddyn. Croesawodd y ficer bawb i'r gwasanaeth.

Darllenwyd Dameg yr Heuwr gan Harriet a Hannah yngyd â gweddïau pwrpasol iawn. Cawsom ddarlleniad gan Dafydd o benillion am y cynhaeaf, yna cafwyd gweddi o diolch gan Craig. Adroddwyd brawddegau wedi eu ffurfio o'r gair CYNHAEAF yn raenus iawn gan:- Craig, Gavin, Jasmin, Danielle, Cara, Ann, Shanelle a Shauna ac yna canodd y plant emyn hwylus iawn am roddion Duw. Hefyd yn bresennol roedd Rebecca, Megan Haf, Daniel a Rhun. Yn cyfeilio roedd Mrs. Ceniwen Evans, Careglwyd gyda Dafydd a Craig. Roedd y ffenestr liw hardd sydd yn eglwys Sant Iago yn gefndir pwrpasol iawn i wasanaeth y cynhaeaf oherwydd yn y canol gwelir llun Iesu Grist fel yr heuwr yn hau'r had gyda'r geiriau "Yr heuwr aeth allan i hau". Rhoddodd y ficer neges bwrpasol iawn i'r plant yn cynnwys esboniad am yr hyn sydd angen ei wneud cyn cael cynhaeaf a'r plant yn ymateb yn dda. Yn ystod yr emyn olaf daeth y plant â'u rhoddion at yr allor. Yr oedd yr eglwys wedi ei haddurno'n dymhorol iawn â ffrwythau, llysiau a blodau'r hydref – ynghyd â themâu gwahanol am y diolchgarwch ar bob ffenestr yn dangos haelioni Duw. Diolchodd y ficer i bawb am eu presenoldeb ac i'r merched a fu'n addurno'r eglwys mewn ffordd mor dymhorol, am y cydweithio hwylus, ac i bawb a gyfranodd mewn unrhyw ffordd er mwyn cael gwasanaeth bendithiol a hwylus wrth dweud Diolch.

**Pererindod**

Prynhawn Sul Medi 9fed ymunodd aelodau eglwys Sant Iago, gyda chynrychiolaeth o eglwys i'r ddeoniaeth i gyd, ar eu pererindod flynyddol a'r tywydd yn braf i gerdded. Eleni, Eglwys Llancyrws oedd yn trefnu'r daith. Dechreuwyd trwy gael gwasanaeth yn Eglwys Dewi Sant Llancyrws dan arweniaid yr Hybarch Andrew John.

Lledodd y cerddwyr lan i glos fferm Bryn Hirfaen, yna cerdded tuag at Garreg Hifraen cyn dechrau ar y daith yn ôl i Neuadd Bro Fana, Ffarmers a chael cyfle i fwynhau'r golygfeydd a chread Duw. Yr oedd cwpanaid blasus o de danteithion yn disgwyl y cerddwyr nôl ac yn ôl pob tebyg roedd yn dderbyniol iawn. Paratowyd y lluniaeth gan ferched y tair eglwys. Diolchodd y Deon Gwlad, y Parchedig Canon Aled Williams, iddynt yn gynnes am y lluniaeth ac i aelodau Eglwys Llancyrws am drefnu'r daith. Bu'n brynhawn hyfryd o gymdeithasu hwylus - braf yw cael dod at ein gilydd gydag eglwysi eraill y ddeoniaeth yn un teulu

Duw.

**Cyngor Bro Pencarreg.**

Derbyniwyd cynllun newydd y datblygiad yng "Nghwrt Deri" Cwmann yn dangos dau dŷ ychwanegol at y 27 a ganiatawyd eisoes. Ni roddodd y Cyngor Bro gymeradwyaeth i'r cynllun newydd am fod yr aelodau wedi datgan eu consyrn am y modd y gwaredir dŵr oddi ar y wyneb yn y cynllun gwreiddiol. Maen nhw hefyd yn gweld perygl i blant am fod 'na bwlw dwfn yn dal y dŵr o'r safle.

Ni basiwyd y dull o waredu dŵr o ddatblygiad "Cae Coedmor" chwaith, ond fe'i basiwyd gan y Cyngor Sir a hynny drwy anwybyddu'r cyngor gan bobl leol a Chyngor Bro Pencarreg – cyngor pobl sy'n adnabod yr ardal ac yn gwybod am y perygl o lifogydd. Fel mae'n digwydd mae yna lifogydd wedi bod fwy nag unwaith ers dechrau'r datblygiad.

Yn ôl Cynllun Datblygu Unedol Sir Gaerfyrddin 2006, mae caniatad cynllunio ar gyfer 89 o dai yn y pentref.

**Cystadlu Da yn Ffair Ram**

Er gwaethaf cyfyngiadau Clwy'r Traed a'r Genau, cynhaliwyd Ffair Ram llwyddiannus iawn ar gae pentref Cwmann ddydd Sadwrn 8fed Medi. Doedd dim defaid yno eleni, ond cafwyd mwy o eitemau yn y pebyll.

Roedd y cystadlaethau yn agored i drigolion plwyf Pencarreg a chafwyd cystadlu o safon uchel a nifer fawr yn cystadlu ymhob dosbarth. Diolch yn fawr i bawb am y gefnogaeth.

Y llywydd eleni oedd Mrs Pat Lloyd Jones, Cedars, Llambad a gyflwynodd Gwpan Her Felindre Isaf a gwobr yr adran ffrwythau a llysiau i Jenkin Mason, Treherbert. Enillodd Gwyn Williams, Blaenplwyf adran y blodau, a Gwen Jones, Derrymore yr adran goginio. Yn adran y gwinoedd a'r cyffeithiau enillwyd y cwpan gan Helen Roberts, Caeronnen ac Iestyn a Llion Russell, Coedeiddig yn ennill adran y cynnyrch fferm.

Cafwyd cystadlu da yn adran y plant. Dyma enillwyr yr isadrannau: Ysgol Feithrin: Dafydd Jones, Hendai; Derbyn: Danielle Leah Jones; Blwyddyn 1 a 2: Mari Lewis Tŷ Cerrig; Blwyddyn 3 a 4: Sara Jones, Cae'r Nant; Blwyddyn 5 a 6: Hannah Evans, Bro Cynon; Ysgol Uwchradd: Sioned Douglas, Llwydbedw; CFFI dan 18: Iestyn Russell; 18-26 oed: Dylan Jones - y ddau o Glwb Cwmann.

Yn yr adran ffotograffiaeth, Cerys Roberts, Caeronnen aeth â hi, gyda Gwyn Williams, Wyngarth yn ennill yn adran y crefftiau gwledig a Dilys Godfrey, Heol Hathren yn ennill yr adran crefftiau llaw.

## Diolch

Dymuna Evan David Jones, Fferm Talardd ddiolch yn ddiffuant i'r perthnasau, cymdogion a ffrindiau am y cardiau a'r rhoddion a dderbyniodd ar achlysur ei ben-blwydd yn naw deg oed yn ddiweddar.

Dymuna David John a Sallie Davies, Maes ddiolch i bawb am y cardiau, anrhegion, blodau a'r galwadau ffôn a dderbyniwyd ar achlysur dathlu eu Priodas Ruddem yn ddiweddar. Hoffai Sallie ddiolch yn ogystal am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd hithau ac am bob cymorth a gofal a dderbyniodd wedi llawdriniaeth ddiweddar yn Ysbyty Werndale. Diolch yn fawr i bawb.

Dymuna Ieuan a Mair Williams, Awelfa [Ieuan, Llain] ddiolch i bawb am yr holl gardiau, galwadau ffôn ac anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur pen-blwydd Ieuan yn 80oed.

## Pen-blwydd Arbennig

Dymuna Lilian, Ffynnonddrain ddiolch i bawb am yr anrhegion, blodau, cardiau a galwadau ffôn a gafodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 85oed. Diolch hefyd i Mr a Mrs Evans, Eagle Inn am baratoi'r parti ac i'r ddau ganwr swynol. Diolch yn fawr i bawb.

## Priodas Ruddem

Llongyfarchiadau i John a Sallie, Maes ar ddathlu eu Priodas Ruddem yn ddiweddar. Hefyd dymuniadau gorau i Sallie am wellhad buan ar ôl bod yn yr ysbyty.

## Cwrdd Diolchgarwch

Cynhelir Cyrrdau Diolchgarwch Capel Nonni ddydd Mercher, Hydref 10fed. Oedfaon am 2:00 y.p a 7:00 y.h. Disgwylir y Parchedig Jill Tomos i wasanaethu. Croeso cynnes i bawb

## Gwellhad Buan

Dymuniadau gorau i Janet Howells, Gwarallt ar ôl triniaeth yn Ysbyty Glangwili yn ddiweddar.

## Priodas Dda

Llongyfarchiadau i Aled Thomas a Lowri, Bwlchclawdd ar eu priodas yn ddiweddar. Priodwyd hwy lawr yn ardal Cwmgwaun ac fe gafwyd y wledd yng Ngwesty Nantyffin, Clunderwen. Maent wedi gwneud eu cartref yn 'Bwlchclawdd'.

## Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Winifred Williams, Tŷ'r Wennol ar ddod yn hen famgu yn ddiweddar – merch fach i Rhun a Nerys, sef Elin Medi.

Llongyfarchiadau i Eileen Davies, Gwndwn ar gyflawni gradd mewn Diwinyddiaeth 2:2 ym Mhrifysgol Cymru, Bangor. Y mae yn barchus iawn yn barod ond y mae bellach



Disgyblion blwyddyn 5 a 6 yn derbyn plac Ysgol Iach ar ffurf deilen gan Lyn Edwards, sef Ymgynghorydd Ysgolion Iach Sir Gâr.

yn Barchedig Eileen Davies, B.Th. Pob dymuniad da iddi mewn amser anodd.

## Sôn am Syrpreis!

Cafodd Dewi Davies, Glanafon syrpreis fawr ryw bythefnos yn ôl pan aeth aelodau'r Cyngor Bro allan ag e' am bryd o fwyd moethus yn y Belle Vue. Nid oedd yn gwybod dim am hynny tan iddo fynd mewn i'r Belle – er fod pawb arall yn gwybod yn iawn. Yr oedd yn edrych ar goll yn lwyr [gan nad yw byth yn mynychu'r lle beth bynnag!] Gwerthfawrogiad oedd hyn am wasanaeth o 37 mlynedd fel Clerc y Cyngor Bro. Cyflwynwyd iddo 'Barometer' gan Gadeirydd y Cyngor, Tommy Davies, ac englynion o waith y Prifardd Donald Evans, gan David Thorne. Cafwyd noson fendigedig gyda bwyd ardderchog wedi ei baratoi gan Andy a Sue yn y Belle Vue.

Dymuna Dewi ddiolch i bawb am gadw'r gyfrinach ac am noswaith i'w chofio. .

## Ysgol Llanllwni

Croesawn Mrs Susan Pendle i'w swydd fel cynorthwywraig yn y dosbarth canol. Mrs Moira Jones yw ein glanheuwrraig ers dechrau'r tymor ac hefyd un o'r goruchwylwyr amser cinio – pob lwc yn y gwaith. Diolch i Mrs Jane Lloyd am lanhau'r ysgol dros y misoedd diwethaf.

Croeso hefyd i Miss Ffion Williams i ddosbarth y babanod - bydd yn dod bob yn ail wythnos am rai misoedd yn rhan o'i chwrw o Goleg Rhydaman. Mwynha'r profiad.

Yn dilyn cau Ysgol New Inn cawsom saith plentyn ychwanegol, sef Daniel a Scott Douglas, Sioned, Siriol a Ceris Howells, Mair Jones

a Steffan Evans. Maent wedi setlo a gwneud ffrindiau'n hapus yn ein plith.

Dymunwn yn dda i Mrs Eiddwen Rees yn ei swydd newydd yn Ysgol y Dderi a chofiwch alw nôl i'n gweld. Dymuniadau gorau i Janet Jones yn yr Ysgol Feithrin.

Llongyfarchiadau i bawb a fu'n llwyddiannus mewn sioeau lleol ac yn Eisteddfod Llambled dros yr haf. Da iawn chi.

Llongyfarchiadau i Alwyn Evans, blwyddyn 4, am gael canmoliaeth uchel am ei waith celf yn y Sioe Frenhinol. Cafodd ei wobrwyo ar brynawn cynta'r sioe. Da iawn ti, Alwyn.

Ymarfer a gwella sgiliau hoci sydd gennym yn ein sesiynau 'Campau'r Ddraig' i blant yn yr Adran Iau tan hanner tymor.

Mae nifer o blant yn cael brecwast yn yr ysgol gan fod 'Clwb Brecwast' wedi dechrau ers rhai wythnosau.

Rydym wedi derbyn yr ail ddeilen yn y Cynllun ar gyfer Ysgol Iach.

## Sioe CFFI Llanllwni

Dydd Llun Gŵyl y Banc, cynhaliwyd Treialon Cŵn Defaid a sioe C.F.F.I. Llanllwni ar gaeau Abercwm trwy garedigrwydd Mr a Mrs Davies ac Eirlys. Oherwydd clwy'r traed ar genau bu'n rhaid dileu'r adran Treialon Cŵn Defaid ac adran y Defaid, ond yn eu lle cafwyd mabolgampau i'r plant ac amryw o gystadlaethau eraill yn ystod y dydd. Da o beth oedd gweld cymaint o bobl wedi dod i'n cefnogi yn ystod y dydd a sicrhau cystadlu brwd yn y tent.

Llywyddion y dydd eleni oedd Mr a Mrs Jones, Penlan y Mor, Llanarth. Braff oedd cael eu cwmni a diolch iddynt am eu rhodd haelionus. Cynhaliwyd sioe fideo am wyth

yr hwyr yn nhafarn y Belle Vue ac yna ocsiwn i gloi'r noson. Cafwyd tipyn o hwyl gydag Aled Thomas, Bwlchclawdd yn gwerthu eitemau di-ri.

Gan gofio nad oedd y ffermwyr ifanc yn gwneud unrhyw elw, mae swm slywedddol o arian wedi cael ei godi at yr elusen a ddewiswyd, sef Apel Arch Noa.

Dymunau C.F.F.I. Llanllwni ddiolch i'r holl noddwyr am eu cyfraniadau, i'r beirniaid am eu gwaith, i'r cystadleuwyr am eu cefnogaeth. Diolch hefyd i'r stiwardiaid ynghyd â phawb arall a wnaeth helpu. Diolch i chi gyd!

## Canlyniadau:-

Sioe Adran Garddwriaeth: Mr Eric Jones, Dwyllan, Pencader, Adran Flodau: Mrs Janet Jones, Dwyllan, Pencader, Adran Goginio: Mrs Marian Jones, Highview, Adran Gyffeithiau a Gwin: Mr a Mrs Eric Jones, Dwyllan, Pencader, Adran Gwartheg Godro: Mr a Mrs Howells, Gwarallt, Adran Gwartheg Eidion: Mr a Mrs Morgan, Glwydwrn, Pencampwyr Gwartheg: Mr Huw Charles, Aberglywydeth, Adran Cynnyrch Fferm: Mrs Catrin George, Tirlan, Adran Plant Dan 7: Iestyn Harries, Maesnonni, Adran Plant 7-11: Aled Jones, Blaenblodau.

## Diolch

Dymuna Huw ac Annwen ddiolch i bawb am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur symud i'w cartref newydd yn Park Lane. Y mae pawb o'u ffrindiau yn dymuno yn dda iddynt.

## Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Alwyn, Bwlchgwynt ar ennill gwobr yn y Sioe Frenhinol yn Llanellwedd.



# Llanbedr Pont Steffan

## Ysgol Ffynnonbedr

Bu cyfnod yr haf yn un prysur iawn wrth i ni symud o'n hen safle i'n cartref newydd. Derbyniwyd celfi newydd gan lu o gwmnïau gwahanol ac roedd rhaid eu didoli a'u lleoli yn yr adeilad newydd.

Ddiwedd y tymor fe roddwyd llyfrau a chyfarpar yr hen ysgol mewn blychau yn barod i'w cludo draw i'r safle newydd. Rhoddwyd y rhain yn y dosbarthiadau perthnasol yn barod i'r athrawon eu rhoi yn y mannau priodol. Clustnodwyd wythnos gyntaf y tymor i'r staff roi pethau yn eu lle ac i drefnu'r cyfarpar. Gan fod byrddau rhyngweithiol ym mhob ystafell bu'n rhaid cynnal cyrsiau i'r athrawon er mwyn iddyn nhw gyfarwyddo. Cafwyd cwrs hefyd ar gofrestru cyfrifiadurol sy'n disodli'r hen gofrestru papur a wnaed gan athrawon dros gyfnod maith.

Yn allweddol i'r gwaith paratoi gyda'r gwaith cyfrifiadurol oedd y ffaith i ni groesawu dirprwy newydd i'r ysgol. Mae'n fachgen lleol - Heulyn Roderick - a braf yw ei gael yn aelod canolog o'r staff yn ein hysgol newydd. Ymunodd gŵr arall â ni sef Islwyn Rees a fydd yn ein cynorthwyo ym maes ymarfer corff tra bod Iona Roberts yn parhau i gydweithio ac i ddysgu blwyddyn pedwar. Edrychwn ymlaen felly at flwyddyn lewyrchus a buddiol gan ddymuno pob llwyddiant i'n staff newydd.

Eleni eto bu nifer o'r plant yn llwyddiannus yn yr adran gelf a chreffft Eisteddfod Pantyfedwena thrwy hynny enillwyd y cwpan eto am yr ysgol â'r nifer fwyaf o bwyntiau yn yr adran hon.

Hyfryd oedd gweld y merched yn perfformio'r ddawns flodau i brifeirdd yr eisteddfod a mawr yw ein diolch i Llinos Jones, Carys Lewis a Nia Davies am eu dysgu a rhoi o'u hamser. Diolch hefyd i Anita Evans am drefnu'r penwisgoedd.

Wrth gloi, llongyfarchwn y plant a fu'n llwyddiannus yn canu a llefaru ar lwyfan yr eisteddfod. Da yw cael cefnogaeth teuluoedd lleol i gynnal y gweithgareddau.

Derbyniodd nifer o'n disgyblion wobrau am baratoi gwaith celf yn seiliedig ar y thema 'Bwyd'. Hyfryd oedd gweld eu gwaith wedi cael ei arddangos yn gelfydd yn y Ffair Fwyd.

Cynhaliwyd ein dawns haf i ddathlu symud i'r ysgol newydd ar Fedi 21. Roedd y plant wedi gwisgo'n brydferth. Mwynhawyd y disgo gyda Tommo a mawr yw ein diolch i Gyngor Tref Llambled ac yn arbennig i'r Cyng. Dorothy Williams am drefnu a pharatoi'r lluniaeth. Diolch hefyd i staff y gegin ac i Marlene Davies am eu cymorth. Bydd y G.R.A. yn

cyflwyno llun i bob plentyn i gofio am symud i'n safle newydd.

## Cymanfa'r Dathlu

Cynhaliwyd Cymanfa Ganu yng Nghapel Soar nos Sul 9 Medi i ddathlu pen-blwydd Eisteddfod Rhys Thomas James Pantfyfedwen yn 40 oed. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan Elin Williams a Dorian Jones gan greu naws hyfryd i'r noson. Estynnwyd croeso cynnes i'r gynulleidfa gan Eryl Jones ac wrth gyflawni ei dyletswydd olaf yn Gadeirydd y Pwyllgor Gwaith diolchodd i bawb am eu cefnogaeth a'u cydweithrediad a dymunodd yn dda i Janet, ei holynydd.

Er nad oedd rhif y cantorion yn uchel iawn cafwyd canu ysbrydoledig dan arweiniad Trystan Lewis a Rob Nicholls wrth yr organ, sef dau athrylith yn y byd cerddorol yng Nghymru heddiw. Profiad gwefreiddiol oedd canu mawl i Dduw mewn Cymanfa mor arbennig ac roedd pawb wedi'u cyfareddu gan ddoniau disglair yr arweinydd a'r organydd. Does dim syndod iddyn nhw gael ymateb gwyh i'w cyfarwyddiadau. Roedd yr arweinydd yn uchel iawn ei ganmoliaeth o'r canu godidog a'r dewis o emynau gan y pwyllgor cerdd. Pleser mawr oedd gwrando ar ddatganiadau swynol yr unawdydd Kees Huysmans, enillydd yr Her Unawd yn yr Eisteddfod eleni am yr ail flwyddyn yn olynol, gydag Elonwy Pugh yn cyfeilio.

Talodd Janet ddiolch haeddiannol i arweinydd ac organydd o fri am eu gwasanaeth amhrisiadwy, i Kees, Elin a Dorian am eu cyfraniadau gwerthfawr, i weinidog a swyddogion Soar am gael defnyddio'r capel, i Mr a Mrs Georgre am bob cymorth, i Sulwen Morgan am y blodau hardd, i'r Parch. Goronwy Evans am draddodi'r fendith, ac i bawb a oedd wedi cyfrannu mewn unrhyw ffordd at lwyddiant y Gymanfa. Talodd deyrnged uchel i Eryl am ei gwaith clodwiw fel Cadeirydd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. I ddiweddu noson fendigedig canwyd yr emyn anfarwol Pantyfedwen gydag arddeliad ac aeth pawb tuag adref gyda'r "Haleliwia" yn atseino yn eu clyw. Cytunai pawb wrth adael y Gymanfa ein bod wedi cael noson i'w thrysori am byth wrth ddathlu carreg filltir bwysig yn hanes yr Eisteddfod.

## Cydymdeimlad

Estynnir cydymdeimlad dwysaf â'r teuluoedd i gyd sydd wedi colli anwyliaid yn ystod y mis.

## Noddfa

Prynawn Sul 16 Medi trefnwyd Barbeciw gan Ysgol Sul Noddfa yng Nghanolfan Cwmann a braf

oedd gweld y plant a'r bobl ifanc ynghyd a'u rhieni ac aelodau Bethel, Caersalem a Noddfa yn bresennol. Paratowyd y barbeciw gan Ronnie a Gethin gyda Derek yn cynorthwyo a chafwyd gwledd arbennig. Hyfryd oedd cael cyfle i gymdeithasu o amgylch y byrddau wrth gyfranogi o'r bwydydd amrywiol a blasus. Mwynhawyd y cyfan yn fawr iawn. Cyn troi tuag adref diolchodd Llinos yn gynnes i'r dynion am eu gwaith caled wrth y barbeciw, i'r chwirydd am eu cymorth hwythau gyda'r paratoadau ac i Janet am drefnu'r noson.

Cynhelir Cwrdd Diolchgarwch yng ngofal yr Ysgol Sul yn Noddfa ddydd Sul 21 Hydref am 3.30. Croeso cynnes i bawb.

Daeth llwyddiant i ran Beryl Davies o Landdewi Brefi, un o aelodau Noddfa yn ddiweddar mewn sawl eisteddfod. Ar hyd y blynydoedd enillodd Beryl nifer o wobrau am ysgrifennu emynau ac yn Nhregaron ychydig wythnosau yn ôl fe'i dyfarnwyd yn gydradd gyntaf. Bu'n llwyddiannus hefyd yn Eisteddfod Llanfachreth ac yng Ngŵyl Fawr Aberteifi enillodd wobr am ysgrifennu soned sydd yn werth ei rhannu gyda darllenwyr Clonc.

## Sylfeini

Y lle yr awn yn llaw fy nhad a mam  
Yn llon ac iach bob tro y deuai'r Sul;  
Yn ufudd iawn yn mynd o gam i gam,  
Er maith y ffordd a'r llwybr yntau'n gul.  
Mor annwyl imi oedd y capel cain  
Lle cawn i glywed sôn am Fab y Sacer.  
I'r eglwys hon yr elai nhaid a nain  
I ymbil yno ar eu Duw mor daer.  
Ond, bellach 'does 'na neb o'm teulu ddaw  
Yn gwmni gyda mi i seinio cân;  
Ac yn fy nghalon drist fe gwyd rhyw fraw –  
Na cheisiant nabod Duw a'i Ysbryd Glân.  
Clywch gri'n haddoldai sydd yn wlo  
'nawr,  
A berw'r byd wrth ddymchwel rhain i'r  
llawr.

Llongyfarchiadau calonnog i Beryl ar eu llwyddiant a phob hwyl gyda'r cystadlu eto i'r dyfodol.

## O Lanbed i St Germain sur Moine

Er yr awr annearol o 4.00 o'r gloch y bore casglodd criw o ryw 28 mewn hwyliau arbennig o dda ar y Rwceri yn Llanbed i gychwyn ar ein taith i ymweld â'n gefaill dref, sef St Germain sur Moine yn Ffrainc.

Roedd cyfran helaeth o'r criw wedi ymweld â'r ardal o'r blaen ond i mi roedd hwn yn brofiad hollol newydd a chyffrous.

Cyrraedd maes awyr Bryste yn ddiogel drwy yrru medrus Gareth Davies gan lwyddo yn ddi-drafferth i fynd drwy'r holl systemau diogelwch. Dechrau ar ein taith am faes awyr Nantes a chyrraedd yno ychydig wedi 11.00y.b. A dyma'r cusanu yn dechrau! Roeddwn wedi

cael fy rhybuddio am hyn - ond daeth yn amlwg ar unwaith fod llawer o'n gefeilliad tramor mor falch o'n gweld ac yn enwedig i groesawu'n ôl y rhai 'roedden nhw eisioes yn eu 'nabod.

I mewn â'n pethe i gyd i fan fawr a doedd dim prinder ceir i'n cludo o'r maes awyr i St Germain. Gan fod y draffordd mor brysur a chwiw hir iawn arni, fe aeth ein gyrwraig fach ni drwy heolydd culion y wlad. Nid ydym yn siŵr hyd heddiw a aeth ar goll neu beidio ond fe gyrhaeddom yn saff ac wedi gweld tipyn o'r wlad yn y broses.

Roedd llawer iawn o bobl wedi dod i'n croesawu - a rhagor eto o gusanu, wrth gwrs!

'Roedd ei Maer nhw yno, ac er nad oedd yn ei lifrai swyddogol, fwy nag oedd ein Maer ninnau, roedd y croeso yn dwymgalon a diffuant.

Un o'r pethau a wnaeth fy nharo yn syth oedd gymaint o deuluoedd ifanc a phlant oedd yn y criw yn ein croesawu o'i gymharu â'n criw ni oedd ychydig bach yn hŷn! Peth arall a'm synnodd oedd eu hamserlen - neu yn fwy cywir, eu diffyg amserlen. Doedd amser yn golygu dim. Treuliwyd prynhawn cyfan yn bwyta a blasu eu gwinoedd lleol ac yna daeth y mochyn druan wedi ei rostio ac roedd rhaid bwyta hwnnw wedyn a rhagor o ddisychedu cyn cael ein tywys gyda'n gofalwyr i'w cartrefi.

Roeddwn i ac Ann a Gwynfor yn aros gyda'n gilydd ac ychydig ddrysau i ffordd roedd Penny David, a gyda'r hwyr daeth y ddau deulu at ei gilydd i'n diddanu.

Bore Sul fu'r unig ffurfioldeb gydol ein arhosiad. Cawsom ein croeso swyddogol ac er nad oedd yr haul yn tywynnu, roedd hi'n sych. Siaradodd y Maer ac ymatebodd ein Maer ninnau, y Cyngorydd Chris Thomas. Bu un o'n trefnwyr gweithgar ni, Trish Carter, yn siarad ac yn ychwanegol at areithio yn Saesneg a Ffrangeg gwnaeth ymdrech arbennig o dda, chwarae teg iddi, i siarad yn Gymraeg hefyd a chafodd gymeradwyaeth wresog am hynny.

Cyflwynoedd ein maer ni anrheg o'i waith ei hun i faer St Germain, sef llechen ag arwyddbais tref Llanbed arni wedi ei gosod mewn darn o bren wedi ei durnio'n gelfydd. Roedd yn amlwg fod y rhodd wedi plesio'n fawr.

Bwyta eto a digon o win yn llifo, fel pe bai'n dod allan o'r tap dŵr. Ar ôl ein digoni fel hyn a chael adloniant ganddyn nhw, daeth yr amser i ninnau roi ychydig o adloniant a dan arweiniad hynod o ysbrydoledig Selwyn Walters ni chafwyd erioed ddatganiad cystal o 'Oes Gafr Eto' a 'Y Gwew'. Dwi'n amau fod 'I bob Un sy'n Ffyddlon' a 'Milgi. Milgi' i'w clywed nôl dros

# Llanbedr Pont Steffan

y don yma yn Llanbedr.

Cawson ni'n tri lety gyda Marielle a Yannick Micheneau-Sauzereau a oedd yn berchen bwyty crand a 'motel' a buom mor ffodus a chael mynd yno i weld y lle. Ond rwy'n meddwl y byddai Gwynfor yn hapusach yn eistedd yn sedd y gyrrwr yn hytrach na'r sedd flaen wrth ochr Yannick! A bod yn garedig, doedd ei sgiliau gyrru ddim o'r un safon uchel â'i goginio!

Yn gynnar fore Llun 'nol â ni eto i'r pentref i gwrdd â'r bws i fynd â ni am ddiwrnod i Barc Treftadaeth 'PUYDU FOU' ac os yw'r cyfleusterau gennych, rwy'n eich cynghori i gael golwg fach ar eu gwefan sef: [www.puydufou.com](http://www.puydufou.com).

Roedd yn anhygoel o le, rhywbeth tebyg efallai i Sain Ffagan ond roedd y sioeau a oedd yn ymddangos yno gydol y dydd yn anghredadwy. Does dim modd disgrifio ysblander rhai ohonynt - dim ond ymweliad personol all wneud cyfiawnder â'r lle.

A diflastod y diwrnod - wel y glaw. Glaw, glaw a mwy o law ac ni chafwyd yno gystal gwerthiant ar glogynnau glaw melyn erioed rwy'n siŵr. Roeddem fel pac o wyddau - ond neb yn cwyno rhyw lawer - dim ond gwneud y gorau o'r gwaetha.

Swper blasus eto gyda Marielle a Yannick a hwythau yn addo dod yn ôl atom i Gymru cyn hir. Ffwrdd â ni eto fore trannoeth am y pentref i ddal y bws ac ie, rhagor o gusanu, a nhwythau fel ninnau yn gyndyn i ddweud ffarwel.

Taith bleserus wedyn yn y bws am Nantes a chael tywysydd swyddogol o amgylch y dref hanesyddol a'i hadeiladau ysblennydd cyn gorffen mewn Seler Win lle cawsom gyfle i flasu a phrynu eu cynnyrch cyn cael ein bwydo'n anrhydeddus unwaith eto.

Ymlaen wedyn am y Maes Awyr ac ar ôl taith ddi-ffwdan arall, cyrraedd Bryste a dyna braf oedd gweld wyneb cyfarwydd a chroesawgar Gareth yn aros amdanom i'n cludo yn ôl i Lanbedr.

Roedd pawb yn unfarn fod y daith wedi bod yn llwyddiant mawr ac roedd yn amlwg fod ein cyfeillion yn St Germain yn awddus iawn i ddal cysylltiad ac yn dal i ofyn ble 'roedd ein pobl ifanc ni -a pham nad oedd teuluoedd ifanc a phlant bach ymysg ein grŵp. Mae'n bwysig, felly, fod sefydliadau sy'n cynnwys pobl ifanc, - ysgolion, clybiau Ffermwyr Ifanc, clybiau pêl droed a rygbi, ac yn y blaen - yn ystyried o ddifri trefnu ymweliad ac ymateb yn gadarnhaol pan ddaw'r gwahoddiad nesaf.

Coeliwch fi - mae'n brofiad gwerth chweil.

## Merched Y Wawr

Cafwyd noson arbennig i

ddechrau tymor newydd o dan lywyddiaeth Eryl Jones ar Nos Lun y 10fed o Fedi. Trodd nifer dda iawn o aelodau fewn i Festri Shiloh, a braf oedd gweld ambell aelod newydd yn eu plith, a chroesawodd y llywydd bawb yn gynnes iawn. Canwyd Cân y Mudiad gyda Janet yn cyfeilio.

Mae pwyllgor newydd wedi ei ddewis sydd yn cynnwys y canlynol: Llywydd - Eryl Jones

Is-Lywydd - Janet Evans

Ysgrifennydd - Dorothy James

Is-Ysgrifennydd - Noleen Davies

Trysorydd - Ann Lewis

Is-Drysoryddion - Pat Davies a

Irene Jones

Cofnodydd - Verina Roberts

Gohebydd Y Wasg - Glesni

Thomas

Dosbarthwr Y Wawr - Mair Jones

(Maesyfelin)

Cofrestrydd / Trefnydd Raffl -

Mair Jones (Pentrebach)

Swyddogion Adloniant - Glenys

Morris a Ray Thomas

Dymunodd Eryl yn dda i bawb sydd wedi bod yn sâl, yn derbyn triniaethau neu sydd wedi colli annwyliaid ers y cyfarfod diwethaf ym Mis Mehefin a chyfeiriodd yn arbennig at ddwy aelod ffyddlon iawn na fedrai fod yn bresennol oherwydd afiechyd sef, Mrs Gwenfil Jones sydd erbyn hyn yng Nghartref Alltymynydd a Mrs Barbara Jones. Dymunodd yn dda i'r ddwy gan annog ein haelodau i ymweld â nhw pan fydd cyfle.

Hefyd gyda thristwch a siom y cyfeiriodd at farwolaeth Mrs Eirlys Ffowc Elis ac at y golled enfawr i'r gangen, i'w chapel, ei chymdogion a'i chyfeillion ac i'r gymuned yn gyffredinol o golli person mor hawddgar. Cafwyd munud o dawlwech i gofio'n annwyl amdani.

Darllenwyd cofnodion mis Mehefin gan Verina Roberts ac yn dilyn diolchodd Eryl i'r Cyn Lywydd Avril Williams a'i phwyllgor am flwyddyn lwyddiannus iawn. Etholwyd Pat Davies a Mary Davies i gynrychioli'r gangen ar yr Is Bwyllgor Chwaraeon ac mae angen penodi aelod i gynrychioli'r Is Bwyllgor Celf a Chrefft gydag Aerwen Griffiths.

Derbyniwyd Tystysgrif o glod uchel am gynhyrchu llyfr lloffion at gystadleuaeth Cenedlaethol y Mudiad.

Ar ôl cryn dipyn o ddyfalu ymysg yr aelodau datgelwyd gwstai ein llywydd ar gyfer y noson agoriadol ac ni siomwyd neb pan ymddangosodd Elin Williams, Y Garn, Cwmann. Mae Elin yn berson hapus a byrlymys ac ymysg ei hamryw ddiddordebau mae dadansoddi llawysgrifen a dyna oedd ei phwnc am y noson. Yr aelodau

dewr a oedd wedi ymgymryd â'r dasg o ysgrifennu oedd Eryl, Pat a Dorothy.

Diolchodd Eryl i Elin am noson wahanol a diddorol ac yn sicr bydd llawer ohonom yn edrych yn fwy manwl ar ein llawysgrifen yn y dyfodol.

Diolchodd hefyd i'r gwragedd a fu yn gweini'r te, sef Gwynfil, Mair Lewis a Glesni.

Enillwyd y raffl gan Noleen Davies a chytunodd Llinos Jones a Janet Evans ymweld â thrigolion Hafan Deg yn ystod y mis.

Bydd ein cyfarfod nesaf nos Lun 8fed o Hydref pan gawn gyfle i fynd 'Rownd y Byd' yng Nghwmi Carys Mai a pheidiwch ag anghofio'r gystadleuaeth sef 'Llun Doniol'.

Mae rhaglen arbennig o ddiddorol wedi ei pharatoi ar gyfer y tymor - a dyw hi ddim yn rhy hwyr ymaelodi: bydd croeso mawr i bawb.

## Cymdeithas Hanes Llamed

Dechreuodd tymor newydd y Gymdeithas Hanes ym Mis Medi wrth i'r Cadeirydd, Selwyn Walters, groesawu pawb i'r Cyfarfod Blynnyddol. Rhoddodd adroddiad ffafriol iawn am y flwyddyn ddiwethaf a diolchodd i'r swyddogion am eu gwaith, yn enwedig Gaenor Parry am drefnu rhaglen mor ddiddorol; yn wir, mae'r flwyddyn newydd yn argoeli i fod yn hynod o ddiddorol eto.

Ymddiswyddodd y Dr. David Austin o'r Pwyllgor Gwaith, ac etholwyd dau arall i'r Pwyllgor, sef Jen Cairns a Marion Roberts. Ail-etholwyd y swyddogion eraill fel o'r blaen, sef:- Cadeirydd, Selwyn Walters; Ysgrifennydd, Cecelia Barton; Trysorydd, Ruth Russell-Jones; Trefnydd Siaradwyr, Gaenor Parry; Pwyllgor Gwaith, Noel Davies, Penny David ac Yvonne Davies.

Siaradwr gwadd y noson oedd y Dr. Andrew Prescott, Llyfrgellydd y Brifysgol yn Llamed. Cyn dod i Llamed, bu'n Guradur y Llyfrgell Brydeinig yn Llundain, cyn mynd i Brifysgol Sheffield i arwain tîm ymchwil. Dywedodd mai yr hyn a'i ddenodd i Llamed yn fwy na dim oedd Llyfrgell y Sylfaenydd a'i gasgliad rhyfeddol o dros 20,000 o lyfrau cynnar, ynghyd â chasgliad arbennig o ddogfennau a llawysgrifau - un o'r casgliadau pwysicaf yng Nghymru.

Mae llawer iawn o'r llyfrau yn eu cloriau memrwn gwreiddiol, ac mae yna nifer megis bwndeli o dudalennau wedi eu clymu, yn syth o'r wasg, gan mai wedyn y byddai'r cyfrolau yn cael eu rhwymo. Wedi diddymu'r mynachlogydd yn yr unfed ganrif-ar-bymtheg, gwaredwyd llawer o'r hen ddogfennau - mewn llawysgrif gain, - a defnyddiwyd

nifer ohonynt i orchuddio llyfrau yn ddiweddarach.

Ceir yna wybodaeth arbennig ar gloriau a thudalennau blaen llawer o'r llyfrau, ac mae'n bwysig eu cadw i'r cenhedloedd a ddaw. Mae'n bwysig cael y tymheredd a'r lefel lleithder yn yr awyr yn gywir er mwyn cadw'r henebion hyn mewn cyflwr da, a dyna'r rheswm dros godi Llyfrgell newydd bwrpasol. Gobeithir agor y llyfrgell newydd tua mis Tachwedd.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wrth archwilio i gynnwys Llyfrgell y Sylfaenydd a'r casgliadau a roddwyd i'r Coleg gan Thomas Burgess a Thomas Phillips, bu'n bosib dod i 'adnabod' y ddau ŵr yma a'u diddordebau. Cyn gynted ag yr oedd carreg sylfaen y coleg yn ei lle, gwnaed apêl am lyfrau a chyn diwedd yr 1820au roedd llyfrau yn llifo i Llamed - megis o Goleg Caergrawnt gan Thomas Bowdler ac oddi wrth gasglwyr enwog eraill y cyfnod.

Ar rai o lyfrau Burgess ceir ei sylwadau personol, naill ai'n cytuno neu'n anghytuno â'r awdur gwreiddiol. Gwelir fod ei gasgliad yn dangos ei ddiddordeb mewn crefydd ac addysg, ynghyd â'r angen i ddiwygio bywyd cymdeithasol y cyfnod. Mae yna gasgliad o waith Hogarth, 1756; Beibl o Normandi wedi ei oreuro yn dyddio o 1279, gwaith a gymerodd 3 blynedd i'w gwblhau, a chasgliad o weddiâu Ffrangeg, eto wedi ei oreuro o'r unfed ganrif ar bymtheg.

Mae llawer o ddeunydd pwysig wedi dod i'r Llyfrgell ers y cyfnod hynny, yn cynnwys llyfr o'r wasg yn Adpar, Castell Newydd Emlyn, a sefydlwyd gan Isaac Carter (marw 1741). Symudodd y wasg wedyn i Gaerfyrddin ond hon oedd yr argraffwasg barhaol gyntaf i'w sefydlu yng Nghymru.

Diolchwyd yn gynnes i Dr Prescott gan Selwyn Walters am ei araith fyrlymus a diddorol. Dywedodd cymaint o ffrainc yw cael y fath drysorau yma yn Llamed.

Bydd y cyfarfod nesa nos Fawrth, Hydref 16eg, 7.30 yn yr Hen Neuadd, pan fydd Ms. Margaret Bide, Cellan yn sôn am Frethyn Cymreig. Croeso cynnes i bawb.

## 18 oed

Yn ystod mis Hydref bydd Angharad Morgan-Isaac, Garej Pontfaen yn dathlu ei phen-blwydd yn 18 oed. Dymuniadau gorau i ti i'r dyfodol.

## Babi newydd

Llongyfarchiadau i Tegryn a Carys Jones, Sain Ffagan, ar enedigaeth merch fach o'r enw Ela Gwennan, wyres i Aneurin a Sallie Jones, Hathren, Stryd y Bont.



# Llanfair

## Llongyfarchiadau

Llogyfarchiadau cynnes iawn i Eleanor Evans, Nantymedd, am ennill y cwpan am goginio yn Sioe Ffaldybrenin a'r darian am yr ymgaio orau yn Sioe Llanbed. Llongyfarchiadau hefyd i Iris Quan, Blaencwm, am ennill cwpan am ei gwaith llaw yn Sioe Llanbed ac am rannu'r cwpan yn Sioe Tregaron.

Hoffwn ddymuno pob llwyddiant i Nia Jones, Llanfair Fach, sydd newydd ddechrau ar ei gyrfa yn Mhrifysgol Bangor yn astudio Cymraeg a Cherdd.

## Gwellhad Buan

Dymunwn wellhad buan iawn i Donald Quan, Blaencwm, ar ôl iddo gael triniaeth ar ei ben-glin yn yr ysbyty yn ddiweddar.

## Cyrddau Diolchgarwch

Bydd cyrddau diolchgarwch Eglwys Santes Fair yn cael eu cynnal nos Fawrth, Hydref yr ail o dan ofal y Parch. Andy Legge, ficer Llanwrda am 7yh, a nos Iau, Hydref yr 11eg, bydd cyrddau Capel Mair am 7yh o dan ofal y Parch. Dyfrig Lloyd, ficer Llanddewi Brefi.

## Ffair Grefft

Cynhaliwyd Ffair Grefft yn neuadd y pentref ddydd Sadwrn, Medi 22ain ac roedd yn llwyddiant mawr. Gobeithir cynnal Ffair Grefft Nadolig yn ddiweddarach yn y flwyddyn.



## Sarn Helen

Ddechrau'r mis bu nifer o'r aelodau yn cystadlu mewn ras newydd yn Ysgol Trefilan, Talsarn. Cafodd Hefin Jones lwyddiant yn y ras i fechgyn ysgolion cynradd. Enillwyd y ras 4 milltir gan Andrew Abbott, Carwyn Thomas yn ail a chafodd Glyn Price ail yn y categori i ddynion dros 40 oed.

Yn ras flynyddol y Dau Fryn eto daeth llwyddiant i Andrew Abbott yn ennill y ras, Carwyn Thomas yn gorffen yn 3ydd a Haydn Lloyd yn 4ydd - y tîm yma hefyd yn cipio gwobr y tîm gorau.

Ganol y mis bu Carwyn Thomas yn rhedeg mewn ras fynydd yn Llyn y Fan. Cafodd Carwyn ras arbennig iawn i orffen yn yr ail safle. Hefyd yn yr un ras daeth llwyddiant i Caryl Davies wrth iddi hithau gipio'r wobwr gyntaf i fenywod agored.

Croeso cynnes i unrhyw un sydd am ymuno â ni:-

Oedolion ~ Nos Fawrth 8.00y.h. tan 9.00y.h a Nos Iau 6.30y.h. tan 7.30y.h. ar faes parcio'r Rookery. Plant ~ Nos Iau 6.30y.h. tan 7.30y.h. ar gaeau'r ysgol uwchradd.

# Ffarmers

## Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Ian O'Connor, Buarth yr Oen am ennill y tlws i ddisgybl dan hyfforddiant yng Ngholeg Sir Gâr, Gelli Aur. Mae Ian yn cwblhau Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol Lefel 4, ac yn cael ei asesu ar safon a chynnydd yn ei berfformiad yn y gwaith. Da iawn ti – dal ati!

## Cydymdeimlad

Blin gennym gofnodi marwolaeth Justin Smith, Caerdydd yn dilyn cyfnod hir o afiechyd, ac estynnwn ein cydymdeimlad â'i briod, Siân Cothi yn ei cholled.

## Diolch

Dymuna Mrs Ray Davies, Peronne ddiolch o galon i bawb am yr anrhegion, y cardiau, y galwadau ffôn, a'r cyfraniadau tuag at Ambiwlans Awyr Cymru ar achlysur ei phen-blwydd yn 80 oed. Derbyniodd yr Ambiwlans Awyr siec am £260.00 Mae hefyd yn diolch am y cyfarchion a'r anrhegion a dderbyniodd wedi treulio cyfnod yn Ysbyty Bronglais yn derbyn triniaeth law-feddygol. Mae'n gwerthfawrogi pob cymwynas a dymuniad da yn fawr iawn.

## Parc Chwarae

Yn dilyn bron i flwyddyn o waith caled gan nifer o rieni a chyfeillion sydd wedi bod wrthi'n ddyfal yn codi arian, mae rhan gyntaf y cynllun i ddarparu offer chwarae i'r plant ar Barc Bro Fana wedi ei gwblhau, ac mae'r plant yn amlwg wrth eu bodd gyda'r ddarpariaeth. Mae'r Pwyllgor wrthi'n barod yn cynllunio ar gyfer y cam nesaf. Diolch iddynt am eu hymroddiad, a phob lwc gyda'r gwaith.

## Cyngerdd Prynhawn

Bydd Cyngerdd yn Neuadd Bro Fana ar brynhawn Sul, y 14eg o Hydref am 3.30 gyda grŵp o gerddorion sy'n perfformio o dan yr enw 'Fuori Sposati' – William Hayward ar y piano, David Cooper ar y ffidil a Wendy Reardon ar y soddgrwth. Byddant yn perfformio rhaglen amrywiol, a rhaid nodi fod y cerddorion yma o safon uchel – yn wir, mae William Hayward newydd ddychwelyd o Siapan lle y bu yn arwain Cerddorfa Ffilharmonig Tokyo. Mae croeso i chi ymuno â ni am wledd o gerddoriaeth a chwpaned o de ar y diwedd.

Sicrhewch eich newyddion yn y papur hwn. Peidiwch â disgwyl i rywun arall ei gynnwys ar eich rhan. Mae'n rhy hwyr i achwyn ar ôl i CLONC ymddangos.

# Llanwnnen

## Ysgol Llanwnnen

Ddechrau'r tymor croesawyd yn gynnes Lewis Jarvis-Blower i ddosbarth Mrs Llwyd a Korinna Moore-Jones i ddosbarth Mr Evans. Gobeithio eich bod eich dau wedi setlo yn iawn yn Llanwnnen.

Cyn gwyliau'r haf bu holl ddisgyblion yr ysgol yn cymryd rhan yng nghystadlaeth dylunio Cerdyn nadolig gogyfer a'u gwerthu y Nadolig yma a'r elw yn mynd i Eisteddfod Urdd Gobaith Cymru Ceredigion 2010. Bu Emyr Jones yn ffodus iawn i fod yn fuddugol yn y categori Bl. 5 a 6.



Dyma Emyr gyda'i gerdyn Nadolig ac os ydych am brynu pecyn o 8 carden amrywiol cysylltwch a'r ysgol.

Bu disgyblion Blwyddyn 6 i fyny yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn ystod prynhawn dydd Mawrth, Medi 25ain yn gweld Sioe Caneri, Gwylan a Brân a berfformiwyd gan gwmni Arad Goch. Mwynhaodd pawb y prynhawn.

Ddydd Iau, 27ain o Fedi cynhaliwyd Taith Gerdded gan Bwyllgor yr Urdd Cylch Llambled trwy gerdded o Ben-top dros Fynydd Llanllwni. Taith o 8 milltir o'r dechrau i'r diwedd. Cafodd pawb amser da yn cerdded yn hamddenol ar hyd lwybr y mynydd. Roeddem yn casglu tuag at apêl lleol Eisteddfod yr Urdd Ceredigion 2010. Byddwn yn trosglwyddo'r siec i'r pwyllgor apêl lleol a fydd yn cael ei sefydlu yn ystod yr wythnosau nesaf.

Cynhelir ein Cwrdd Diolchgarwch nos Iau, Hydref 11eg yn Eglwys St Lucia, Llanwnnen am 7y.h. Croeso cynnes i bawb.

Cydnabyddir cefnogaeth

BWRDD YR IAITH GYMRAEG

i'r cyhoeddiad hwn

**Llinell Gyswllt:**  
**0845 6076070**  
[www.bwrdd-yr-iaith.org.uk](http://www.bwrdd-yr-iaith.org.uk)  
[www.mentrau-iaith.com](http://www.mentrau-iaith.com)

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

# Cellan

## Diolch

Dymuna Elma a Goronwy Phillips, Llys Gwyn, Cellan ddiolch o galon am y cardiau, blodau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur eu Priodas Ruddem yn ddiweddar.

Hefyd hoffai'r ddau ddiolch am bob arwydd o gyfeillgarwch a ddangoswyd tuag atynt yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Gwerthfawrogi eich caredigrwydd a'ch cefnogaeth yn fawr iawn.

## Gwellhad Buan

Dymuniadau gorau am wellhad llwyr a buan i Mrs Nesta Jones, Coedmore Hall ar ôl ei damwain car yn ddiweddar.

## Gwellhad Buan

Gwellhad buan iawn i nifer o drigolion y pentref sydd wedi dioddef salwch dros yr wythnosau diwethaf.

## Cwrdd Diolchgarwch

Cynhelir Cwrdd Diolchgarwch Capel yr Erw ar nos Fawrth y 9fed o Hydref am 7 o'r gloch. Y pregethwr gwadd fydd y Parch. Elwyn Jenkins, Llanbedr Pont Steffan. Croeso cynnes i bawb.

## Symud Ymlaen

Pen-blwydd hapus iawn i Owen Daniel, Llys y Barcud yn 18 oed. Gobeithio i ti fwynhau'r dathlu. Pob hwyl hefyd i'w frawd Rhodri sy'n dechrau yn y Brifysgol eleni. Lwc dda hefyd i Marc Evans, Dolcoed sy'n dechrau yn y Coleg yng Nghaerdydd.

## Priodas Ruddem

Llongyfarchiadau i Ken a Mary Jones, Glasfryn, Cellan sy'n dathlu eu Priodas Ruddem ar yr 21ain o Hydref. Pob Hwyl gyda'r dathlu!

Os ydych yn ymateb i hysbyseb gan gwmni yn CLONC, dywedwch wrthynt ymhle y gwelsoch yr hysbyseb.

## Cystadlaeth Sticer Car CLONC

Braf gweld llawer o geir yr ardal yn arddangos y sticeri. Llawer o bobl felly â'r cyfle i ennill £10 bob mis am wneud hynny yn ystod eleni, blwyddyn dathlu pen-blwydd Clonc yn chwarter canrif.



Llongyfarchiadau i Dafydd ac Ann Davies, Gerynant, Drefach ar ennill £10 yn y rhifyn diwethaf.

Rhif car yr enillydd lwcus y mis hwn yw **CP56 GGE**. Mae gennych ddeg diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r rhifyn hwn i hawlio'ch gwobr. Cysylltwch ag un o'r Bwrdd Busnes cyn gynted â phosib.



# Cwrtnewydd

## Swydd Newydd

Dymuniadau gorau i Meleri Williams, Clynoch ar ei swydd newydd lawr yng Nghaerdydd gyda S4C a Phlaned Plant.

## Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Rachel Thomas, Hengoed, ar basio arholiadau gyda marciau uchel a derbyn Tystysgrif Ganolradd mewn Cymraeg Ail-iaith, Cyd-Bwyddgor Addysg Cymru. Bu Rachel yn dilyn cwrs un diwrnod yr wythnos yng Ngholeg Dewi Sant, Llanbed.

## Ysgol Cwrtnewydd

Croeso mawr i'r disgyblion newydd sydd wedi ymuno â ni yn yr ysgol wedi'r Haf. Rydym yn brysur iawn yn yr ysgol ar hyn o bryd yn cynllunio meysydd chwarae newydd. Mae rhai o'r plant hŷn wedi bod wrthi yn ysgrifennu llythyron at y gymdeithas rhieni ac athrawon tra bu eraill wrthi yn darlunio eu syniadau â'r cyfrifiaduron yn yr ystafell gyfrifiaduron newydd. Gobeithiwn yn fawr y bydd yr offer chwarae newydd yn ei le cyn i Siôn Corn ymweld â'r ysgol. Cadwch lygaid ar y golofn yma i weld y datblygiadau diwedddara.

Cynhelir gwasanaeth diolchgarwch yr ysgol am 2.00 y prynhawn yn neuadd yr ysgol ddydd Iau y 18fed o Hydref. Mae croeso cynnes i aelodau'r gymuned ymuno â ni. Mae croeso hefyd i gymdeithasau'r ardal ddefnyddio ein hystafell gyfrifiaduron ac adnoddau'r ysgol ar gyfer nosweithiau a gweithgareddau. Os ydych am fanteisio ar y cyfle neu am drefnu ymweliad mae croeso i chi gysylltu â'r pennaeth, Alwyn Ward, ar 01570 434273.

Mae croeso hefyd i gymdeithasau'r ardal ddefnyddio ein hystafell gyfrifiaduron ac adnoddau'r ysgol ar gyfer nosweithiau a gweithgareddau. Os ydych am fanteisio ar y cyfle neu am drefnu ymweliad mae croeso i chi gysylltu â'r pennaeth, Alwyn Ward, ar 01570 434273.

# Clwb Clonc

## Mis Hydref 2007

£25 rhif 191:  
Tony Hatcher,  
Abernant, Drefach.  
£20 rhif 450 :  
Iestyn Jac Wilson,  
Llwynhelig, Alltyblaca.  
£15 rhif 162:  
William Evans,  
Rylwyn, Llanybydder  
£10 rhif 287:  
Catrin Bellamy Jones,  
Pantyrhendy, Llanarth  
£10 rhif 1:  
Linda Bashford,  
Cwmderi, Redhill, Surrey  
£10 rhif 431:  
Eifion Williams,  
Bryn y Wawr, Cwmann

## C.Ff.I. Llanwenog

Dechreuodd blwyddyn Clwb Llanwenog ar Fedi'r 3ydd yn ysgol Cwrtnewydd pan ddaeth nifer o aelodau hen a newydd (a Kylie oedd yn ymweld â Chymru o Awstralia!) at ei gilydd ar gyfer noson yr arweinyddion. Buodd pawb yn mwynhau chwarae lot o gemau dwl a dod i 'nabod yr aelodau newydd yn well.

Trip i ganolfan y Cyryglau yng Nghenarth oedd nesa'. Cafodd pawb gyfle i chwysu yn y 'gym' neu i ymlacio yn y 'sauna' a'r pwll nofio, a chael llond bola o fwyd cyn mynd adre'.

Ar Fedi'r 17eg mi aethon ni'r holl ffordd i'r Ffindir! Wel, ddim yn hollol, ond mi groesawon ni glwb Bro'r Dderi i Ysgol Llanwenog i baratoi arddangosfa ar y Ffindir ar gyfer noson hyrwyddo teithiau tramor y Sir yn Llanina.

Buodd pawb yn brysur yn torri, lliwio, gludo ac ysgrifennu er mwyn cwblhau'r arddangosfa, ac mi aeth pawb adre' wedi dysgu nifer o ffeithiau newydd am y Ffindir - fel pam fod Donald Duck wedi ei wahardd o'r wlad! (Rhag ofn eich bod chi'n beco - am nad yw e'n gwisgo trowser).

Cafwyd noson hwylus iawn yn Llanina ar yr 21ain, ac rwy'n siŵr ei bod wedi codi awydd ar nifer o aelodau Llanwenog i fynd i deithio yn y dyfodol.

Bydd y clwb yn cynnal Cwrdd Diolchgarwch ar Hydref y 15fed am hanner awr wedi saith yng Nghapel Alltyblaca. Mi fydd y gwasanaeth yng ngofal y Parch.Goronwy Evans, felly cofiwch ddod!

## HYSBYSEBU YN CLONC

"Mae mwy a mwy yn gweld gwerth mewn hysbysebu yn y Papur Bro."

Amcangyfrifir bod tua 3,000 o bobl yn darllen CLONC.

£10.00 am floc bach.

£25.00 am chwarter tudalen.

£50.00 am flwyddyn o flociau bach.  
Cysylltwch ag Ysgrifenyddes CLONC  
am ragor o wybodaeth:

01570 480015

ysgrifennydd@clonc.co.uk

## Mae CLONC ar werth yn y siopau canlynol:

Caxton, Llambed  
Compton, Llanybydder  
Eryl Jones, Llambed  
Garej Checkpoint, Harford  
Glennydd, Cwrtnewydd  
Gwasg Gomer, Llandysul  
Inc, Aberystwyth  
J H Williams, Llambed  
Lomax, Llambed  
Medical Hall, Tregaron  
Siop y Bont, Llanybydder  
Vanilla Bay, Aberaeron  
Siop Talgarreg  
Spar, Llanybydder  
Swyddfa Bost, Cwmann  
Swyddfa Bost, Felinfach  
Swyddfa Bost, Llanllwni  
Swyddfa Bost, Llanwnnen  
Swyddfa Bost, Pontsian  
Tafarn Cefnhafof, Gorsgoch  
Tu-hwnt, Caerfyrddin  
W D Lewis a'i Fab Pumsaint

# Cwmsychpant

## Cwrdd Diolchgarwch

Cynhelir Cwrdd Diolchgarwch Capel Cwm nos Iau, Hydref 18fed am 7:30 y.h. Disgwylir y Parchedig Eileen Davies, B.Th o Lanllwni i bregethu. Croeso cynnes i bawb.

## Bant i'r Coleg

Pob dymuniad da i Carys Evans, Penffordd wrth iddi ddechrau ar ei gyrfa coleg ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth. Mwynha'r amser yno.

## Oedfa o Fawl 100 oed

Ar nos Sul, Medi 23ain roedd Capel y Cwm yn llawn ar gyfer Oedfa o Fawl i ddathlu 100 mlynedd yr achos. Do, fu'r noson yn un llwyddiannus iawn o dan arweiniad medrus Carys Griffiths, Cwrtnewydd. Einir Ryder a Meleri Williams oedd y ddwy organyddes gyda Eilir a Bryn Williams wrth y drymiau a'r gitâr fâs. Artistiaid y noson oedd Parti'r Gannwyll. Cafwyd datganiadau swynol gan y merched. Llywyddion y noson oedd Betty Lloyd, Port Talbot a Mair Thomas, Dryslwyn sef efeilliad Tyngrug-Uchaf gynt. Cafwyd gan Betty araith gofiadwy ar ran y ddwy ac roedd ei tad yn un a helpodd i godi'r Capel. Dyma lywyddion a oedd â chysylltiad agos iawn â dechreuad yr achos yn y Cwm. Rhoddwyd basgedaid o flodau yr un iddynt gan efeilliad eraill y Cwm sef Sophie a Lauren Jones. Talwyd y diolchiadau gan Wyn Thomas y gweinidog.



Yn y llun gwelir, Betty a Mair, Sophie a Lauren ynghyd â swyddogion y capel, Jean Evans, Mary Jones a'r gweinidog Wyn Thomas.

## Capel y Cwm – 100 oed

I ddathlu penblwydd y capel yn 100 oed bwriedir cynhyrchu plât y dathlu. Wrth reswm bydd llun y capel arno ac nid yw'r pris wedi ei gadarnhau eto – mae hynny yn dibynnu ar nifer yr archebion. Cymerir archebion o hyn tan ddiwedd mis Hydref gan swyddogion y capel, sef Jean Evans 434246 neu Mary Jones 480667. Os am blât cysylltwch yn fuan.

## Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â theuluoedd Cerwenog, Tyngrug-ganol a Blaenhirbant-ganol yn eu profedigaeth ddiwedd y mis.

Llongyfarchiadau i aelodau tîm Clonc ar gael eu henwebu ar restr fer gwobr yng nghategori Busnes Cymunedol yng Ngwobrau Busnes Ceredigion. Cyhoeddwy'r enillwyr mewn seremoni ym Mhafiliwn Bont ar y 6ed o Dachwedd. Pawb i groesi bysedd!

## T. Emyr Jones Adeiladwr



Araul, Cwmann

01570 423921

07790429378

## Cludfwyd Indiaidd NEHAR

newydd agor yn Llambed



Y bwyd wedi ei goginio'n fres bob dydd.

15% o ostyngiad  
ar archebion dros £10.00.

Y cogydd â dros 20 mlynedd o brofiad o weithio mewn sefydliad indiaidd.

10 Stryd y Bont, Llambed

01570 422893 / 422175



# Drefach a Llanwenog

## Eglwys Santes Gwenog.

Llongyfarchiadau i ysgol wirfoddol Eglwysig Llanwenog ar gyrraedd ei phen-blwydd yn 140. Wedi misoedd o drafod a chynghori, cafwyd llwydiant canmoladwy iawn a phenwythnos o ddathlu brwd. Diolch i'r cadeirydd, Geraint Davies, Llyseri a'r ysgrifennydd Hazel Thomas, Penpompren ac aelodau'r pwyllgor gwaith am eu llafur caled. I gloi'r dathliadau, cynhaliwyd Cymanfa Ganu yn yr Eglwys. Alun Guy, sy'n flaenllaw iawn ym myd cerddoriaeth Cymru, fu'n arwain y canu hyfryd. Brian Jones a Pauline Roberts-Jones, un ar yr organ drydan a'r llall ar organ yr eglwys fu'n cydchwarae'n effeithiol iawn.

Prynhawn Sul cafwyd gwasanaeth arbennig gyda'r Parchedig Richard Evans, Llanilar, cyn ficer y plwyf sy'n 93oed, yn pregethu. Daeth nifer dda ynghyd a threuliwyd orig hyfryd yn hel atgofion dros gwpaned o de wedi'r oedfa. Diolchodd y Parch. Bill Fillery i'r Parch. Dic Evans ac i'r gwragedd am baratoi lluniaeth ysgafn ac addurno'r eglwys yn hardd. Diolchodd hefyd i'r dynion am dacluso'r fynwent.

Wedi'r oedfa cafodd pawb gyfle i weld copi o'r garreg Ogam sydd wedi'i gosod yn y fynwent gyferbyn â phorth yr eglwys. Darganfuwyd y gwreiddiol – sy'n dyddio nôl i'r 5ed ganrif, yn Rhuddlan – ac mae nawr yn yr Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd. Beddfaen yw'r garreg gydag enw 'Tenactacus' arni, er nad oes llawer o wybodaeth bellach. Diolch i Geraint Davies Llyseri am drefnu'r garreg ac i Dennis Jones am dorri'r symbolau a'r llythrennau arni.

Dymunwn yn dda i Pauline Roberts-Jones sydd wedi derbyn swydd ran amser ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Dyma'r rhai a enillodd Glwb 100 yr eglwys.

Awst 1. Eleri Lewis, 2. Richard Bone, 3. Margaret Roberts.

Medi 1. Pat Mealing, 2. Daniel Thomas, 3. Katie Jones.

## Y Gymdeithas Hŷn.

Daeth teithiau'r Haf i ben am y flwyddyn ar Fedi'r 12fed. Cafwyd te a thamaid i'w fwyta yn y Black Ox yn Abergwili cyn symud ymlaen i Amgueddfa Caerfyrddin. Cafwyd amser i weld y creiriau a'r henebion oedd yn ymwneud â'r sir. Yn y prynhawn aethom i'r Ardd Fotaneg Genedlaethol a gweld y tŷ gwydr un haen mwyaf yn y byd a'r tŷ gwydr trofannol newydd.

Taith fer wedyn i Landeilo am swper hyfryd yn y 'White Hart'.

Bydd tymor yr Gaeaf yn dechrau ar Hydref y 10fed gyda'r cyfarfod cyffredinol blyneddol yn Festri Seion Cwrtnewydd am hanner awr

wedi un o'r gloch. Croeso i bawb ac estynnwn wahoddiad cynnes i aelodau newydd.

## 18 oed

Yn ystod mis Hydref bydd Richard Milcoy, Llwynteg a Siwan Davies, Llyseri yn dathlu ei pen-blwyddi yn 18 oed. Dymuniadau da i chwi eich dau i'r dyfodol.

## Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â theulu'r diweddar Johnny Rees Davies, Hazelmead, Rhuddlan a fu farw yn Ysbyty Glangwili yn ystod y mis.

## Cylch Meithrin Drefach

Pob lwc i Dylan Thomas, Megan a Nia Jones yn eu hysgolion newydd.

Croeso cynnes i Llilly Smith, Alaw Jones, Carwyn Davies a Emily Roach i'n plith.

Cafwyd cystadleuaeth gyda Chlwb Cledlyn yn ystod gwyliau'r Haf. Gofynnwyd i blant y Cylch beintio llun o unrhyw beth a welir mewn parc. Bu'r canlynol yn llwyddiannus:-

- 1af Guto Ebbsworth
- 2ail Lucy Cooper
- 3ydd Nia Morgan



Aeth criw da ohonom yn ystod Tymor yr Haf i gael sglodion ym mwyty Lloyds yn Llambled. Cafwyd amser hyfryd yno a chroeso cynnes iawn.

Mae Mrs Caryl Rosser ein cynorthwraig yn mwynhau gymaint yng nghwmni'r plant, mae wedi cymryd swydd arall yng Nghylch Meithrin, Talgarreg.

## Dathlu'r Ysgol yn 140

Rhoddwyd croeso i'r tyrfaoedd mawr a ddaeth i bob achlysur a gynhaliwyd dros ein pen-wythnos dathlu. Hoffwn ddiolch o galon i'r Pwyllgor, cyn-ddisgyblion, plant a rhieni am eu gwaith caled ac i bawb am eu hymateb a'u cefnogaeth.

Ar y Nos Wener, gwnaeth y plant eu gwaith yn dda, a gobeithiwn y bydd fideo ar gael. Cafwyd llawer o hwyl wrth weld amryw o berfformiadau difyr. Roedd cawl blasus ar gael i bawb wedi ei baratoi gan ein Cogyddes Ms. Eleri Davies – nid ar chwarae bach mae paratoi cawl i 400!

Roedd y pwyllgor wedi archebu mygiau arbennig a ddyluniwyd gan Mrs. Eleri Lewis, Ffosffald er mwyn eu rhoi i ddisgyblion yr Ysgol a

chyn-ddisgyblion dros naw deg oed. Ond erbyn hyn mae Capten Tony Jones wedi cynnig talu amdanynt. Diolch o galon iddo.

Buom yn ffodus iawn i gael heulwen braf trwy gydol dydd Sadwrn ac roedd yr ysgol a'r wlad ar eu gorau.



Plannodd Mrs. Elizabeth Mary Jones (Lizzy Mary) ddwy goeden ar y Dydd Sadwrn gyda llawer o help wrth y plant. Torrwyd un gacen ddathlu gan Lizzy Mary a'r llall gan staff yr Ysgol. Paratowyd te hyfryd i bawb gan ein Cogyddes, y mamau a Sefydliad y Merched. Cafwyd amser diddorol gan bawb yn pori trwy'r lluniau yn yr Arddangosfa.

Y noson honno, cafwyd gwledd o gyngerdd 'nôl yng Nghae Pen Pom Pren gyda llawer o artistiaid disglair. Bu Mr. Gareth Jones, Cyfarwyddwr Addysg y Sir yn ein cyfarch gydag englyn arbennig o'i waith ei hun. Llywyddion y nos oedd Mr. Trevor Bennett, Mrs. Betty Smith a Mrs. Jean Jenkins, 'Faciwis o Lundain a fynychodd yr ysgol adeg yr ail Ryfel Byd. Roedd dau 'faciwi arall yno hefyd, sef Mr. Ralph Buckley o Lamberd a Mrs. Joyce Thompson o Swydd Gaint. Roedd y Cyngor Cymuned wedi rhoi torch o flodau

iddynt i'w gosod o flaen y gofeb yn y pentre. Yn ystod y noson, gwerthwyd llun o waith Mrs. Aerwen Griffiths, (Montage o ardal Llanwenog) gan Mr. Mark Evans. Mae printiadau o'r llun i'w cael trwy'r Ysgol.

Bore Sul daeth nifer o bobl

ynghyd i weld y dorch flodau yn cael ei gosod o flaen y gofeb. Teimlwn ei bod yn bwysig yng nghanol y dathliadau i ni gofio cyn-ddisgyblion yr ysgol a wnaeth yr aberth fwyaf yn y ddau ryfel byd. Cafwyd amser pleserus yn ystod y dydd gyda llawer o bobl yn galw yn yr ysgol unwaith eto i gymdeithasu a thrafod y dyddiau a fu. Yn y prynhawn aeth llawer i'r Eglwys i ymuno mewn gwasanaeth arbennig dan arweiniad y ficer, y Parch. Bill Fillery ac i wrando ar gyn-ficer y plwyf, y Parch. Richard Evans, Llanilar yn pregethu. Roedd yr Eglwys wedi ei haddurno yn gelfydd iawn gan

chwiriwyd yr Eglwys. Diolch yn fawr iddynt. Roedd yr Eglwys yn llawn erbyn y nos hefyd ar gyfer y Gymanfa dan arweiniad medrus Mr. Alun Guy o Gaerdydd. Roedd e'n canmol y canu yn fawr iawn ac yn bendant roedd yr eglwys yn morio o gerddoriaeth rhwng y canu a'r ddwy organ! Mrs. Pauline Roberts Jones oedd yn chwarae'r organ fawr gyda Mr. Brian Jones ar yr organ electroneg. Un emyn arbennig a ganwyd oedd 'Meysydd' – y dôn gan Gwawr Jones, a'r geiriau gan ei mam, Mrs. Gillian Jones, llywydd y noson.

Cyd-ddigwyddiad ffodus iawn oedd fod 'Carreg Ogam Rhuddlan' yn ôl yn y fynwent. Mae'r garreg wreiddiol yn dal i fod yn yr Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd ond mae 'replica' arbennig o dda wedi ei gerfio gan Mr. Dennis Jones, Saer Maen lleol, ac yn awr mae'r Garreg Ogam yn ôl yn ddiogel yn y plwyf.





## Creative Cove

40A Y Stryd Fawr,  
Llambed, ☎ 421985



Ystod eang o offer swyddfa  
a deunyddiau celf a chrefft  
am brisau cystadleuol iawn.

Yn cynnwys:

- Certris inc a deunyddiau  
cyfrifiaduron eraill, - cardiau cyfarch,
- mapiau arolwg ordnans,
- deunyddiau postio a phacio,
- deunyddiau gwneud cardiau a llyfrau  
lloffion, - pecynnau crefft i oedolion a  
phlant, - paent Winsor a Newton,
- padiau brasluniau arlunwyr,  
cynfas a phapur dyfriliw.

## RHODRI ELIAS

### Peiriannydd Gwresogi Olew

Yn cynnig  
gwasanaeth  
i'r tair sir.



RHODRI  
ELIAS  
Wedi lleoli  
yng  
Nghaerfyrddin

- Trwsio a gwasanaethu pob math  
o foileri olew gan gynnwys stôfiau  
megis AGA, RAYBURN a STANLEY.
- Aseidiadau OFTEC wedi eu pasio.
- Telerau da i gwsmeriaid newydd.
- Ffoniwch neu edrychwch ar y  
wefan am brisiau.

Ffôn: (01267) 230 875  
Symudol: 07896 291 733  
rhodri@olew.co.uk  
www.olew.co.uk

Cadwch y tocyn yma i gael 10% i ffwrdd

Rhodri Elias

Ffôn: (01267) 230875 Symudol: 07896 291733

# W.D. Lewis a'l Fab

Masnachwyr Amaethyddol

☎ 01570 422540

Melin Mark Lane, Stryd y Bont,  
Llanbedr Pont Steffan

Am holl fwydydd a nwyddau  
amaethyddol, cysylltwch â ni.

## WILLIAMS & BOURNE

CYFREITHIWR.  
COMISIYNNWR LLWON

Trosglwyddiadau a phob  
gwasanaeth cyfreithiol.  
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.

**1 Sgwâr Harford,  
Llambed**

☎ 01570 422206 ☎ 01570423540

A thrwy apwyntiadau yn Nhregaron, Llanbydder,  
Castell Newydd Emlyn a Chaerfyrddin.

## CEGIN GWENOG CATERING

Y gwasanaeth arlwyio cyflawn  
ar gyfer bob achlysur:

Priodas; Penblwydd;  
Bedydd; Angladd;  
Cinio Busnes;

Digwyddiadau Maes,

Bwydlenni unigol i ateb  
eich gofynion chi – boed yn  
fawr neu'n fach

**Cyswllt: Mrs Mair Hatcher**

Abernant, Llanwenog, Llanbydder, SA40 8UR  
☎ 01570 481230 ☎ 07967 559683



Buddugwyr Ffair Ram, Cwmann gyda Llywydd y dydd



Merched Llambed yn dathlu buddugoliaeth ym Mhencampwriaeth Bowls Cymru yn Ngharno

## O'r Cynulliad

gan Elin Jones AC

Mae'r amser wedi hedfan ers imi ysgrifennu fy ngholofn ddiwethaf. Erbyn hyn, rydym fel Aelodau o'r Cynulliad wedi dychwelyd at ein cyfarfodydd wythnosol yn y Senedd. Y tro hwn fodd bynnag, mae disgwyl imi fel y Gweinidog dros Faterion Gwledig ateb cwestiynau fy nghyd-aelodau ar nifer o faterion pwysig. Wrth gwrs, y mater cyntaf a godwyd yn y siambr oedd yr ymateb i Glwyf y Traed a'r Genau a'r effaith y mae'r cyfyngiadau yn eu cael ar y byd amaethyddol. Yn anffodus, wrth i'm colofn ddiwethaf gael ei chyhoeddi fe gafwyd hyd i achosion newydd o'r clwyf yn Lloegr ac fe fu'n rhaid ailgyflwyno'r cyfyngiadau ar symud anifeiliaid yng Nghymru bron yn syth ar ôl iddynt gael eu codi'n llwyr. Fodd bynnag, rwy'n gobeithio fawr y byddwn wedi gallu codi nifer o'r gwaharddiadau eto erbyn eich bod yn darllen y golofn hon.

Oherwydd Clwyf y Traed a'r Genau, nid oedd modd imi fynychu cynhadledd Hydref Plaid Cymru a gynhaliwyd yn Llandudno eleni. Serch hynny, roedd hi'n braf iawn cael dianc o fwrlwm yr argyfwng am noson a dychwelyd i fwynhau'r cyngerdd diweddar i ddathlu pen-blwydd Ysgol Gynradd Llanwenog yn 140. Er gwaetha'r holl boeni am ddyfodol nifer o'n hysgolion bychain, mae'n braf gweld bod ysgol gynradd wledig fel Llanwenog yn parhau i fynd o nerth i nerth.

Mae dyfodol ein gwasanaeth iechyd yng Ngheredigion yn parhau i'm pryderu – yn enwedig y bwriad i uno'r ymddiriedolaethau iechyd yng Ngheredigion, Sir Gâr a Sir Benfro. Rwyf wastad wedi gwrthwynebu cam o'r fath ac yn parhau i wneud hynny. Rwy'n credu y byddai uno'r ymddiriedolaeth iechyd a'r bwrdd iechyd lleol yng Ngheredigion yn fwy addas ar gyfer ein hanghenion iechyd mewn ardal wledig fel hon.

Cefais y fraint o agor bore coffi Papur Sain Ceredigion yn ddiweddar yn Aberystwyth. Dyma elusen sy'n darparu gwasanaeth amhrisiadwy i drigolion Ceredigion ac roeddwn i'n falch iawn gallu derbyn y gwahoddiad. Yn ne Ceredigion, mynychais gynhadledd yng Ngwbert i lansio adroddiad ar y Prosiect Arfordiroedd Glân sy'n ceisio hybu cydweithio rhwng awdurdodau yng Nghymru ac Iwerddon ar y mater pwysig hwn.

Yn olaf, ddiwedd mis Medi fe fyddaf yn torri'r darn cyntaf o dir mewn seremoni yn Aberystwyth i ddathlu dechrau adeiladu swyddfa newydd Llywodraeth y Cynulliad yn y dref. Bydd hyn yn sicr yn ddatblygiad pwysig iawn i'r economi yng Ngheredigion.





Eisteddfod Tregaron - Sadwrn  
Medi 8fed  
Cystadleuaeth Monolog: Cyntaf  
- Guto Gwilym, Cwmann.



Eisteddfod Tregaron - Sadwrn  
Medi 8fed  
Elliw Mair o Silian yn fuddugol ar  
yr Unawd 12-15 oed.



Steffan Roberts a Tomos Williams  
a ddaeth i'r brig mewn cystadleuaeth  
bwllo. Enillodd y ddau darian sialens  
Gwilym Price ei fab a'i ferched ar  
gyfer plant ysgolion cynradd.

# Tim Jones



## Ffotograffydd

Llainwen, Rhodfa Glynhebog  
Llanbedr Pont Steffan

01570 422644

Gwahoddir cwmnïau lleol i hysbysebu yn CLONC yn rhifyn Nadolig. £10 am hysbyseb bach fel ar y dudalen hon, neu £50 am un mewn 10 rhifyn - Bargen! Cysylltwch â'r trysorydd ar 01570 480015, neu ysgrifennydd@clonc.co.uk Efallai bydd cynrychiolwyr CLONC yn galw gyda chi yn ystod mis Hydref.

### Cyngor Bro Llanllwni

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Cyngor Bro ar nos Fawrth y 18fed o Fedi yn Festri Capel Nonni gyda 10 aelod yn bresennol. Roedd Cwnstabl Rhydian Jones yn ymddiheuro.

Croesawodd y Cadeirydd T.J. Davies yr aelodau i'r cyfarfod. Cofnodion cyfarfod mis Gorffennaf yn gywir - E. Davies ac Emrys Evans.

Materion yn codi

Cynllunio - Bu Adran Gynllunio'r Cyngor Sir yn ymweld â safle Pendderi, Maesyrugiau a chafodd y cynllun ei drafod yn bellach yn y siambr, cynrychiolwyd y Cyngor Bro gan D.A. Thorne. Penderfynwyd gwrthod y cais cynllunio.

Daeth cais cynllunio i wneud

estyniad yn Pantllyn. Doedd dim gwrthwynebiad.

Llwybrau cyhoeddus - Bu T.J. Davies, Emrys Evans ac Emyr Evans i weld y ffordd rhwng Felindre a Bryn. Penderfynwyd bod angen tua thri llwyth o gerrig er mwyn gwella'r ffordd.

Rhoddyd caniatâd gan y Cyngor Sir i gais y Cyngor Bro i glirio'r llwybrau cyhoeddus ger Wig y Wern a heibio Goetre.

Goleuadau Stryd - Penderfynwyd gofyn i'r Cyngor Sir fynd ati i roi golau stryd ger Dolifor.

Mapiau o'r Plwyf - Mae D.A. Thorne wedi gwneud trefniadau i hen fapiau o'r plwyf gael eu hadfer. Pan fydd y gwaith wedi gorffen

bydd yna gopi papur a chopi caled (Cd Rom) ar gael.

Llywodraethwr - Enwebwyd D.A. Thorne fel Cynrychiolydd yr awdurdod Llai ar Gorff Llywodraethol ysgol Gynradd W.Rh. Llanllwni am dymor arall.

Prifffyrdd - Penderfynwyd anfon llythyr i Adran Brifffyrdd y Cyngor Sir yn nodi bod wyneb y ffordd fawr ger Brynceirch a Talardd Arms wedi dirywio a bod angen atgyweirio'r ffordd.

Llythron - Derbyniwyd llythyr o ddiolch oddi wrth Ysgol Gynradd W. Rh. Llanllwni am y rhodd o £4,217.76 a dderbyniwyd o gyfrif heb bwyllgor neuadd y pentref.

Swyddog y Wasg - Cynigwyd

Dewi Davies fel Swyddog y Wasg Cyngor Bro Llanllwni.

Gwefan Llanllwni - Diolch i Rhodri Jones, bydd gwefan Llanllwni ar gael cyn bo hir.

Caniatawyd y rhoddion canlynol: Ffederasiwn Ffermwyr Ifanc Sir Gaerfyrddin - £250.00. Penderfynwyd gadael y gweddill tan ddechrau'r flwyddyn.

Gwaith Cymunedol - Penderfynwyd gwneud ymholiadau i weld os oes modd cael pobl i lanhau sbwriel yn y pentref.

Talwyd y canlynol: Cyngor Sir (golau stryd) - £614.58, Lyn Jones (torri porfa cae chwarae) - £300.00, BDO Cyfrifydd - £141.00, Cyngor Bro Llanllwni.

## Toriad Taclus

Mae Toriad Taclus  
Wedi newid siop  
Mae ar Heol Caerfyrddin  
Ger y Sgwâr Top

Ffoniwch Catrin ar 01570 481425

## COMPASS OFFICE SUPPLIES

Am eich holl  
ddeunydd swyddfa

Uned 19, Stâd Ddiwydiannol  
Llambod, Heol Tregaron,  
Llambod.

☎ 01570 422955  
☎ 01570 422232

## Mwnci ffwnci

Brodweithio  
a Phrintio Dillad.  
Darparu  
Dillad Gwaith  
a Hamdden.

Sioned Green  
a Mared Jones  
Nantgwyn,  
Heol Llanfair  
Llambod

☎ 01570 423135  
☎ 07811917799 /  
☎ 07968821035  
✉ mwnciffwnci@hotmail.com

Ymgynghorwyr Yswiriant

## Eryl Jones

Beth am gysylltu â ni am amcan-bris  
i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan,  
beic modur

Yswiriant tŷ/  
cynnwys

Teithio

Fferm a busnes

Cyfrifoldeb

Anifeiliaid

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant,  
cyngor a chefnogaeth yn rhad

Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr  
Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA  
Ffôn: 01570 422401  
Ffacs: 01570 422562  
Authorised & Regulated by The Financial Services Authority

## Gwesty'r Grannell

Llanwnnen

Bwyd cartref ardderchog,  
Ystafell wydr newydd,  
Yn arlwyio ar gyfer pob  
achlysur,  
Ystafelloedd en-suite,  
Trwydded ar gyfer priodas.

Cysylltwch â Susan neu Siriol  
☎ 01570 480476

## Carpedi

Gwyn Lewis  
Cyf

Cyflenwi a gosod:  
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,  
Cladinau Wal,  
yn ogystal â Gwelyau,  
Pennau Gwelyau a Rygiau.

43 Stryd y Bont  
LLANBEDR PONT STEFFAN  
Ffôn a Ffacs: 01570 423984  
Adref: 01570 423349

## KING'S HEAD

Stryd y Bont, Llambod  
☎ 01570 422598  
o dan reolaeth newydd  
Emyr ac Ann Marie.  
Bwyd Ffres a Chwrrw Da.  
Croeso cynnes i bawb.

Oes angen cyngor arnoch?  
Mae gennym arbenigedd cyfreithiol  
mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWWYLLYSIAU A'U PROFiant,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A  
MODD I'W LEIHU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth  
mae croeso i chi gysylltu â ni.

## Arnold Davies Vincent Evans

33 Stryd Fawr, Llambod  
☎ 01570 422517 ☎ 01570 423244



# Llanybydder

## Diolch

Dymuna Wyn Thomas, Brynllô Fawr ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a dderbyniwyd ganddo yn ei brofedigaeth o golli ei dad annwyl, sef Gwilym Thomas yn ystod yr haf. Carai ddiolch hefyd i weinyddesau Cere Care am eu gofal di-flino a thyner dros y misoedd diwethaf ac i holl staff Meddygfa Brynmeddyg, Llanybydder am eu gofal hwythau hefyd ar hyd y blynyddoedd diwethaf. Gwerthfawroga'r cyfan oll yn fawr iawn.

## Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau cynnes i Puw a Rhiannon, Gorlan, Llanybydder ar ddathlu eu Priodas Arian ar Fedi 25. Gobeithio eu bod wedi mwynhau eu gwyliau yn yr Aifft.

## Diolch

Dymuna Thelma, Tegfryn ddiolch i bawb am y cardiau, anrhegion a'r dymuniadau da ar achlysur ei phen-blwydd yn ddiweddar. Diolch yn fawr.

Dymuna Garri, Helen a'r teulu ddiolch o galon i Louise a John, Gwesty'r Cross Hands am drefnu noson i godi arian tuag at Apêl Iestyn i'r Ambiwylans Awyr. Gwerthfawrognw eich caredigrwydd yn fawr iawn.

Dymuna Pugh a Rhiannon, Gorlan ddiolch i bawb am y cardiau, anrhegion a'r dymuniadau da a gawsant ar achlysur eu Priodas Arian.

## Merched y Wawr

Ar ôl seibiant dros yr haf, mi wnaeth Merched y Wawr ail gychwyn tymor arall ar nos Lun 24 Medi 2007 yn Festri Aberduar. Braff oedd gweld yr aelodau i gyd wedi casglu, a Linda yn y Gadair gyda Wendy ac Edith. Ar ôl cyfarfod byr i ddweud beth oedd ar y rhaglen am y flwyddyn, a thalu'r aelodaeth, croesawodd Linda, Mrs Wena Bevan Jones - Ynad Heddwch. Mi wnaeth Wena ddisgrifio beth oedd gwaith Ynad Heddwch. Ar ôl sgwrs ddiddorol mi wnaeth Bet rhoi'r diolchiadau, a gwnaed y te gan Mair ac Edith. Bydd y cyfarfod nesaf ar 22 Hydref 2007. Croeso i unrhyw aelod newydd ymuno â ni.

## Ysgol Llanybydder

Nos Wener, Gorffennaf 6ed cynhaliwyd ein Ffair Haf flynyddol. Yn ystod y noson cynhaliwyd twrnamaint pêl-droed o dan ofal Kelvin James a Geraint Williams – roedd yn bleser croesawu ysgolion y cylch i gystadlu. Cafwyd hefyd gystadleuaeth tynnu'r gelyn yng ngofal Geraint Thomas, Gwarbrest.

Llywydd y noson oedd Barrie Jones, cyn ddisybl o'r ysgol sydd bellach yn rheolwr gyda chwmni adeiladu "Redrow". Roedd yn bleser croesawu Barrie, ei wraig a'r teulu i'r ysgol a rydym yn ddiolchgar dros ben am ei rodd haelionus ac am sicrhau rhoddion ychwanegol.



Diolch arbennig iddo a chwmni "Redrow" am noddi'r "Cit Pêl-droed" newydd. Yn wir, roedd y plant yn smart iawn ar y noson. Roedd y Ffair Haf yn llwyddiant ysgubol a chodwyd dros £2000 o arian.

Dymuna C.Rh.A ddiolch i bawb a wnaeth gefnogi mewn unrhyw ffordd ac am ddod ar y noson. Noson i'w chofio.

Aeth yr ysgol gyfan am drip i Fferm Folly ddydd Gwener, Gorffennaf 13eg. Er gwaethaf y tywydd garw, cafwyd diwrnod pleserus a phawb wedi mwynhau.

Croeso cynnes i Jac Evans, Jac Thomas, Jack Davies, Karine Barnett a Ffion Wyn sydd wedi ymuno â ni ers dechrau'r tymor. Pob hwyl i chi yn ein plith.



Cynhaliwyd taith gerdded gan aelodau a ffrindiau Eglwys Sant Pedr, Llanybydder ar y 31ain o Awst.

Diolch i bawb am gefnogi'r noson a diolch i Susan Evans o Fanc Barclays am noddi'r digwyddiad drwy'r cynllun punt am bunt.

## Gorsgoch

### Llongyfarchiadau

Mae Elinor Jones, Penlôn wedi pasio dwy arholiad gerdd yn ystod yr haf. Fe basiodd Gradd 3 ysgrifenedig gydag anrhydedd, gan gael marciau llawn, Mae hefyd wedi llwyddo yn yr arholiad Gradd 3 piano gyda 'merit'.

Llongyfarchiadau mawr i ti.

## Pentrebach

### Gwellhad Buan

Dymunwn wellhad llwyr a buan i Eric Jones, Pant-têg yn dilyn ei lawdriniaeth yn Ysbyty Treforys yn ddiweddar.

## Llangybi

### Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â Miss Megan Jones, 4 Forest Lane ar farwolaeth ei chwaer a oedd yn byw yn Llechryd.

### Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Rhydian a Mary Lloyd, Olmarch Uchaf ar enedigaeth eu hwyres Megan Eluned, merch i Daniel a Shirley yn Nhregaron. Dymuniadau gorau i chwi fel teulu.



Caryl Griffiths, Glandulas, a'r gwobrau a enillwyd gan ei tharw ifanc, Eirianfa Griff, yn Sioe Frenhinol Cymru eleni.

### Mwynhau darllen Clonc?


Beth am ddarllen y cyhoeddiadau Cymraeg eraill: GOLWG – Cylchgrawn Cymraeg Cenedlaethol wythnosol, a gynhyrchir yn Llambled, sydd yn y siopau bob dydd Iau. Ffoniwch: 01570 423529.

Y CYMRO – Papur Newydd Cymraeg Cenedlaethol wythnosol sydd yn y siopau bob dydd Gwener. Ffoniwch: 01766 515514.

Y BYD – Papur Newydd Cymraeg Cenedlaethol dyddiol, o ddydd Llun i ddydd Gwener, a fydd yn y siopau o'r 3ydd Mawrth 2008 ymlaen. Ffoniwch: 0871 230 0032.

Os hoffech gynorthwyo'r gwirfoddolwyr gyda'r gwaith o gynhyrchu'r papur hwn, croeso i chi gysylltu ag un o'r bwrdd busnes.

Deintyddfa  
**Llys Einion**  
Dental Surgery



Dr. GLENYS DAVIES  
60 HEOL MAENGWYN  
MACHYNLLETH  
POWYS  
SY20 8DY

Yn agor


DYDD LLUN 8fed o HYDREF 2007

GWASANAETH DDEINTYDDOL  
BREIFAT NEU "DENPLAN"

YN CYMERYD ENWAU DROS Y FFON  
10 o'r gloch y bore tan 3 o'r gloch y prynhawn

01654 700022

**D Aled Evans**  
Plymwr a  
Pheiriannydd Gwresogi



**Gosodwr a Chynhaliwr**

- Systemau gwresogi
- Baddonau a chawodydd
- Gwresogyddion mewn lloriau
- Gwasanaeth cynnal a gosod boileri a'u hatgyweirio

**Ffôn/Ffacs 01267 253230 neu 07966 592 183**

# Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan

Llongyfarchiadau i bawb oedd ynghlwm â chanlyniadau'r arholiadau Lefel A a TAGU eleni. Cafwyd canlyniadau gwych, gyda 77% yn ennill y graddau uwch sef A-C, a bron i 100% yn llwyddo i basio eu harholiadau Safon Uwch a TAGU. Roedd y canlyniadau yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Llongyfarchiadau mawr i'r holl disgyblion am eu hymdrechion a'u gwaith caled ac hefyd i'r staff am eu paratodau trwyadl. Dyma rai o'r canlyniadau gorau: Alex Conti 3A 1B, Daniel Davies 2A 1B, Carys Evans 3A, Enfys Hatcher 2A 1B, Rhian Jacob 3A, Owain Jones 4A, Hanna Lewis 2A 1B. Lisa Templeman 4A, Kate Thomas 4A, Na Ra Yoo 4A

TGAU/CGC/Lefel Mynediad - Llwyddodd 67% o ddisgyblion Blwyddyn 11 i ennill o leiaf 5 gradd A\*-C ac roedd pob disgybl a wnaeth sefyll arholiadau CGC (NVQ) 1 a 2 yn llwyddiannus. Pob clod iddynt am gynnal y safon ardderchog yma a diolchwn hefyd i'w hathrawon am eu hymroddiad a'u harweiniad.

Ymysg y canlyniadau gorau yn yr arholiadau TGAU oedd :  
Luned Mair 10A\* 3A Owen Williams 9A\* 4A  
Martin Theodorou 9A\* 3A 1B Natalie Moore 7A\* 4A 1B  
Aled Parry 7A\* 3A 2B Louise Owens 7A\* 1A 2B  
Jessica Davies 5A\* 4A Hedydd Davies 5A\* 5A 2B  
Russell Pink 3A\* 7A Caryl Thomas 3A\* 8A 1B  
Phillip Chrich 5A\* 5A

Roedd y pennaeth Dylan Wyn wrth ei fodd â'r canlyniadau eleni. "Llongyfarchiadau gwresog i bawb sydd wedi llwyddo yn yr arholiadau eleni. Mae eich gwaith wedi dwyn ffrwyth a rydym yn falch iawn o'r hyn rydych wedi'i gyflawni. Dyma ganlyniadau y gallwch ymfalchïo ynddynt. Gwerthfawrogi yn fawr waith caled y staff wrth baratoi'r disgyblion ar gyfer eu cyrsiau. Diolchwn hefyd i'n partneriaid – yr ysgolion cynradd, Hyfforddiant Watson (CGC Peirianeg), Coleg Gelli Aur (CGC Amaethyddiaeth), swyddogion yr Awdurdod Addysg Lleol, llywodraethwyr yr ysgol a'r rhieni/gwarcheidwaid am eu cymorth a'u cefnogaeth wrth i ni gyflawni'r gwaith. Dymuniadau gorau i bob un sydd yn gadael Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan."

Croeso cynnes i'r ysgol i Mr Huw Spencer sydd wedi ymuno â'r Adran Saesneg a chroeso nôl i Rhian Medi i ddysgu Cymraeg a dyniaethau. Llongyfarchiadau i Julie Davies ar enedigaeth, Elin Medi. Priododd Mrs Nerys Rees a Geraint Rees ddechrau mis Awst. Dymunwn briodas ddedwydd iddynt.

Llongyfarchiadau i'r canlynol sydd wedi cael dyrchafiad o fewn yr ysgol:  
Mr Gary Morgan Pennaeth Ymarfer Corff  
Mrs Kay Morris Pennaeth Technoleg Gwybodaeth  
Mrs Heledd Dafis Arweinydd Cynnydd blwyddyn 8  
Mrs Edwina Rees Arweinydd Cynnydd blwyddyn 9  
Miss Melanie Hands Arweinydd Cynnydd blwyddyn 10

Llongyfarchiadau i Killion McKenzie a fu'n cystadlu yn y cystadlaethau ffensio ym mhencampwriaeth ysgolion y Deyrnas Unedig yn Coventry ddiwedd mis Awst.



Electroneg.

Cyflwynwyd siec o £1,703.15 i Rhiannon Hicks gan Fanc Barclays.

Llongyfarchiadau gwresog hefyd i Owain Jones sydd wedi ennill ysgoloriaeth i Brifysgol Caerdydd i astudio Peirianeg Trydanol ac

Dyma ddarllenwyr mwyaf brwd y llyfrgell y tymor diwethaf : Stephen Roberts 9S, Mathew Tonks 9G, Annalise Jeanne 8S, Rowan Marshall 9S, Tiffany Jones 9S.

Bu wythnos gynta'r tymor yn un brysur iawn i'r flwyddyn 12 newydd. Yn ystod yr wythnos, cafwyd diwrnod mentergarwch, taith i'r Senedd yng Nghaerdydd a diwrnod o weithgareddau yn Llain. Mae'r gwaith yn parhau ar y bloc gwyddoniaeth newydd ac edrychwn ymlaen at gael symud i'r adeiladau newydd ar ôl hanner tymor. Mae'r ymarferion ar gyfer y sioe "High School Musical" yn parhau. Cynhelir y sioe ar Hydref 22, 23, 24. Fe fydd tocynnau ar werth ddechrau

mis Hydref. Cafwyd diwrnod cyffrous tu hwnt yn yr ysgol yr wythnos diwethaf wrth i'r cogydd enwog Gordon Ramsay ymweld â'r ysgol! Roedd yn ffilmio gyda'r teulu Ciminera yn y 'Fish and Anchor' yn Llanwnnen ar gyfer ei raglen deledu 'Kitchen Nightmares'. Mae'r rhaglen yn ceisio cynnig cyngor a chymorth ymarferol i fwytai, er mwyn gwella ansawdd y bwyd a denu mwy o gwsmeriaid i fwyta yno.

Cyrhaeddodd yr ysgol ar gefn tractor a bu cynnwrf mawr wrth iddo ymweld â'r ffreutur. Cafodd aelodau'r chweched ynghyd â rhai aelodau'r staff gyfle i sgwrsio gyda'r dyn ei hun, i flasgu bwydlen newydd y 'Fish and Anchor' ac i gael ei lofnod wrth gwrs!

Mae Angharad Lewis a Menna Williams o'r chweched a Lisa Thomas o flwyddyn 9 yn gweini yn y bwyty. Cafodd y dair ohonynt wythnos brysur ond un gofiadwy yn paratoi'r bwyd ac yn gweini. Yn ôl Menna ac Angharad "Mae Gordon yn berson neis iawn ac yn wahanol i'w bersona ar y teledu. Mae'n rhwydd siarad ag ef, ac i ddweud y gwir, mae e fel y boi drws nesa". Mae wedi bod yn brofiad anhygoel - blinedig iawn, ond cafon ni lawer o sbort!"

Llongyfarchiadau hefyd i un o'n cyn-ddisgyblion, Kelly Thomas, sydd yn astudio Arlwy ym y coleg. Mae Gordon Ramsay wedi cynnig swydd iddi yn un o'i fwytai yn Llundain, gan iddi wneud cymaint o argraff arno yn ystod yr wythnos.

Mae'r 'Fish and Anchor' felly wedi cael ei ail lansio, ac erbyn hyn y mae'n cynnig "bwyd Eidaleg rystig gan ddefnyddio cynnyrch lleol o'r ansawdd gorau". Mae'n siŵr y bydd trigolion ardal Llambled yn heidio yno i brofi'r bwyd newydd!

Fe fydd y rhaglen 'Kitchen Nightmares' yn cael ei darlledu ar Channel 4 ac S4C ym mis Tachwedd.

## Eisteddfod Pantyfedwen

Cystadleuaeth y Gadair  
Ffugenw – Mewn Rhyfeddod

CHWE PHENNILL TELYN  
Ffug enw – Pant y Bryn

BYD NATUR

LLECYNNAU

STORM  
'Allan!' Mae'r nos yn myllu. Awel Oer  
Mae 'na law yn casglu.  
A dw innu'n melltenu  
drwy her ddod, drwy awyr ddu.

Y mae ffynnon tan y deri  
A'r canghennau'n gysgod iddi,  
Pan yn ifanc ac mewn afiaith  
Yma disychedais ganwaith.

MÔR  
Pob ton, yn ein calonnau, yn agor  
i eigion o berlau  
ac i bob ton, dim ond dau  
i wyllo, rhwng dau olau.

Rwyf yn amal yn breuddwydio  
Am y fronfraith yn yr henfro,  
O na chawn i rodio'r bore  
Unwaith eto'n sŵn ei node.

HEDYN EFO TAID  
'Tylla'n o bell. Tylla'n bellach. Ie, iawn  
yw ei blannu'n ddyfnach;  
wedyn bydd y blodyn bach  
yn y mae yn rymusach.

Yn yr haul tra mela'r gwenyn  
'Mhlith y grub a'r eithin melyn –  
Dyma'r lle'r arferwn innau  
Oedi'n hir yn rhes yr hafau.

MACHLUD  
Er i'r machlud ddod a'th hudo ganwaith,  
a geni ei liw-o  
yr un mor berffaith bob tro  
a yw ella'n dy dwyllo?

Hwyr y dydd ym mwllch yr ydlan,  
Clawr ystên i mi yn gwpan,  
Ac yng nghwmni y medelwyr,  
Yno'n traethu straeon difyr.

PRYSURDEB  
Oedaf, a syllu wedyn ar wendid  
a chywreinder pryfyn.  
Oedi gaf, a'mond gofyn –  
a wy'n fwy na fo, fy hun?

Teimlo gwres yr heulwen isel  
Wrth fwynhau Ha' Bach Mihangel,  
Ond cyn nos y tarth yn disgyn  
Gan orchuddio llawr y dyffryn.

MYNYDD  
Caf ei ddringo fel glöyn byw'n ei wefr  
mynd heb neb i'w ddilyn.  
A chaf fod yr uchaf un –  
ond dod i'r gwaelod wedyn.

Ar ôl dewis lle i orffwys  
Mae 'na fangre sy'n baradwys  
Fel yr haul dros war y gorwel  
Yr af innau yno'n dawel.

EIN TON  
Tawel wyt ti. Y wlad hon â'i harlais  
yn berlau. Mae'r noson  
yn hel pob mân awelon  
ym min y dŵr am un don

Roy Davies, Penbre.

Guto Dafydd, Trefor, Caernarfon

Rhifyn mis Tachwedd

Yn y Siopau

**Tachwedd 1af**

Erthyglau i law erbyn

**Hydref 18fed**

Newyddion i law erbyn

**Hydref 22ain**



## Leidis lyfli!

Dyma'r cwtsh misol lle all di droi i weld beth yw'r myst haf diwedddara', felly rho'r treinyrs rhacs, hen fflash yna yn y bin, a chymer bip ar y danteithion yma.




**Sbin** – bag enfawr, sgarff streips, siwmperi gwlanog, aeliau trwchus, sodle uchel.

**Bin** – Tops smoc, prints gyrli, legins, bags rhad, jîns sgini, lipstick pinc.

Sortia dy hun!

## Blog i'r boliog.

Heia leidis, wel mae fy ewyllys i fwyta'n iach wedi sgialu mas o'r adeilad. Ydy, mae wedi bod yn gyfnod gwael. Wnaeth e gyd ddechrau dydd Gwener diwetha' gyda brechdan bacwn a latte mawr.



Erbyn 4 y prynhawn, roedd dwy gacen swmpus wedi llwyddo i

ymgartrefu yn fy mola. Aeth pethe o chwith o'r fan yna 'mlaen.

Dros y diwrnode ar ôl hyn, roedd yr agwedd, 'O by\*\*r it' ar bopeth, a oedd yn golygu mwy o siocled, braidd dim ymarfer corff ac yn sicr doedd dim inc wedi cael ei lledaenu ar hyd fy nyddiadur deiet.

Ond fe ddaeth y diwrnod mawr o gamu ar y dafol felltgedig. Sa i'n rhan o glwb slimio na dim byd felly, ond mae gwneud e ar y cyd gyda fy ffrind yn waeth byth efallai.

Ro'n i wedi meddwl gwneud eesciws i beidio mynd, ond fi'n reit falch fy mod i wedi llusgo fy mhen-ôl i'w thy. Tri phwys a hanner ymlaen. Fi'n ddrwg.


Ond roedd Mon Fuhrer yn dda chwarae teg, ac wedi fy ysgogi i barhau gyda'r bwyta'n iach yma. Os na fydden i wedi mynd, bydden i wedi bod adre, yn stwffio ar fwyd y diafol.

Felly fi nôl ar gart y deiet, a ddoe, wnes i basio'r kit kat yn y siop a mynd am y banana yn lle. A fi wedi bod ar y we i chwilio am syniadau ar sut i wneud ymarfer corff yn hwyl.

Y peth nesaf fi'n mynd i brynu yw peiriant Wii, a gwneud campau amrywiol yn fy lownj. Mae'n debyg bod un boi wedi colli 9 pwys mewn chwe wythnos ar ôl ymarfer am hanner awr bob dydd.

Wna i roi gwybod i ti sut mae'n mynd tro nesa!

## Cornel y cartŵn.



Ewch i [www.e-clectig.blogspot.com](http://www.e-clectig.blogspot.com) i weld mwy.

## Boi ar y byd...

Dyma Jason Morgan, gog o Rachub sydd hefyd yn crwydro strydoedd Caerdydd yn aml, i ddweud ei ddweud.

"Y Frechdan Deimladol."

Mae sawl ymadrodd gwych ym meddiant yr iaith Gymraeg; mae mynd dros ben llestri, oes pys a gwneud môr a mynydd o ryweth yn enghreifftiau o'r rhain, ac yn rhai dw i'n eu defnyddio'n naturiol iawn. Does dim gwell nag ymadroddion naturiol, ond mae un gwell sydd rywfaint yn fwy aneglur, sef;


"Dw i'n teimlo fatha brechdan."

Nawr, does neb dw i'n eu hadnabod yn dweud hyn, a phan dw i wedi eu dweud maen nhw'n edrych arna' i'n wirion, sy'n gwneud i mi feddwl fy mod i wedi bathu'r ymadrodd. Dw i'n SIWR 'mod i heb. Ond pa beth yw teimlo fel brechdan?

Teimlad ôl-hangofyr, dw i'n meddwl. Ti'n gwbod yn iawn, pan nad oes bellach na chur pen na phoen bol, ond teimlad di-egni, dwl, sydd fel arfer yn para tan ddydd Llun yn y gwaith ac yn cael ei waredu gyda'r nos wrth i ti gael cwsag da.

Dw i ddim yn siwr beth ydy teimlo fel brechdan, dim ond y bydda' i'n teimlo felly ar ddydd Llun. Oes rhywun arall?

Cer i [www.rachub.blogspot.com/](http://www.rachub.blogspot.com/) i ddarllen mwy.



# £10 Bant!

**Archebwch cyn y dyddiad cyhoeddi!**  
**[www.gwyddoniadurcymru.com](http://www.gwyddoniadurcymru.com)**

£50 gyda p+p am ddim. Pris Adwerth Argymelledig £60 – Arbed £10!

## Ar gael o'r 8<sup>fed</sup> o Dachwedd 2007

[www.gwyddoniadurcymru.com](http://www.gwyddoniadurcymru.com)

## Gwyddoniadur yr Academi Gymreig

yw'r cyfeirlyfr mwyaf cynhwysfawr i'w gyhoeddi yng Nghymru erioed. Rhwng cloriau'r gyfrol odidog hon ceir erthyglau am yr holl bobl, lleoedd a digwyddiadau sydd wedi cyfrannu at greu cyfoeth diwylliannol, hanesyddol a daearyddol Cymru.

**Pwy?** Cymry enwog. Cymry da. Cymry diarhebol o ddrwg. Yr arwyr a'r arwresau na chawsant eu haeddiant, boed yn fodau hanesyddol neu'n ddim ond ffrwyth dychymyg. Maen nhw i gyd yma.

**Ble?** O unigeddau urddasol i drefi diwydiannol byrlymus, caiff pob treflan yng Nghymru, boed fach neu fawr, ei chrybwyll yn y llyfr hwn.

**Beth?** Gwleidyddiaeth, hinsawdd, dawn, diwydiant, celfyddyd, chwaraeon, cerddoriaeth, byd natur, theatr, cyfryngau, iaith, economi – dim ond rhai o'r pynciau a geir rhwng cloriau'r llyfr anhygoel hwn, sy'n llawn ffeithiau syfrdanol ac annisgwyl.

Llyfr mawr cyntaf ac olaf Cymru, sy'n anhepgor i bob cartref!  
Prif Weithredwr yr Academi, Peter Finch

Also available in English: The Welsh Academy Encyclopaedia of Wales. For details visit [www.encyclopaediaofwales.com](http://www.encyclopaediaofwales.com)

Gwasg Prifysgol Cymru, 10 Rhodfa Columbus, Maes Brigantîn, Caerdydd, CF10 4UP  
Ffôn: 02920 557451 Ffacs: 02920 496108



# Yn y Gegin gyda Gareth



## “Siwgrwr a Sbeis a Phopeth Neis”.

Rydw i wedi gwneud ychydig waith ymchwil am Siwgrwr yn ddiweddar felly dyma i chi, gogyddion ‘Clonc’ ychydig o ffeithiau. Cofiwch fod yna lawer mwy i stori'r siwgrwr na llond llwy mewn te a'i droi, a'i droi, a'i droi!

Darllenwch yr ychydig ffeithiau hyn –

- Yn ystod yr Ail Ryfel byd dim ond 4 owns o siwgr yr wythnos a oedd yn cael ei ganiatáu ar gyfer pob unigolyn.
  - Defnyddiwyd siwgrwr cyn belled yn ôl â 346 o flynyddoedd Cyn Crist.
  - Yn India defnyddir y blagur siwgrwr a'i goginio ac wedyn ei fwyta fel llysieuyn.
  - Os yw ‘curry’ yn gadael llosg yn eich ceg – cymerwch lond llwy de o siwgrwr ac fe welwch fydd o wahaniaeth.
  - Os oes un o'r teulu yn dioddef gan ‘igian’ (hiccups), rhwch ychydig siwgrwr ar flaen y dafod ac maen nhw'n siŵr o ddiflannu.
  - Nid oes brasder mewn siwgrwr.
  - Pan welwch chi actorion yn syrthio drwy wydr neu ar ben potel, peidiwch chi a'u hefelychu. Bydd y gwydrau a'r poteli wedi'u gwneud o siwgrwr.
- Dyna fe, ychydig ffeithiau i chi feddwl amdanynt.

**Pob hwyl yn y gegin;  
Gareth.**

## Cacen Gellyg (pears) a Chnau.

### Cynhwysion

- 175gm o fenyn
- 150gm o siwgrwr mân (caster sugar)
- 2 ŵy
- 220 gm o flawd codi.
- ½ llond llwy de o bicarbonate o soda .
- 1 llond llwy de o nutmeg
- 140 ml o laeth
- Zest un lemnwn
- 50gm o almon wedi'u malu
- 2 ellygen
- Ychydig sudd lemnwn.

I'r addurn –

50gm o fenyn, 2 llond llwy fwrdd o hufen,

50 gm o siwgrwr brown, 75gm o haenau almwn (flaked).

Dull –

1. Leiniwch dun 20 cm â phapur pobi. Rhwch y ffwrn ar wres 180°C 350° F Nwy 4.
2. Cymysgwch y menyyn, siwgrwr ac ychydig o esens vanilla. Cymysgwch un ŵy i mewn gan ychwanegu'r bawd yn araf rhag i'r cyfan geulo; ychwanegwch yr ŵy arall a gweddill y bawd, y nytmeg a'r soda. Yna ychwanegwch y llaeth, y zest a'r almwn wedi'i falu.
3. Piliwch y gellyg a'u sleisio, rhwch sudd lemnwn drostynt. Rhwch hanner y gymysgedd ar waelod y tun yna rhwch y gellyg drosto, ac wedyn gweddill y gymysgedd. Rhwch yn y ffwrn am 40munud.
4. Yr addurn – Toddwch y menyyn, ychwanegwch y siwgrwr, yr hufen a'r haenau almwn.
5. Tynnwch y gacen o'r ffwrn, rhwch y gymysgedd almwn drosti, coginiwch am 20 munud nes fod y cyfan yn lliw brown. Tynnwch o'r ffwrn a gweinwch yn gynnes neu'n oer.



**Cegin Gareth**

**Goedwig**

**Llanbedr P.S.**

**SA48 7JP**

**01570 422 313**

*Blodau*

*Cacennau*

*Dathliadau*

*Partïon*

# MIS y PAPUR NEWYDD

## Colofn Dylan Iorwerth

### Newid byd ... a gwasanaeth iechyd

Mae Llanbed yn dref drawsnewidiol – medden nhw. Efallai nad oeddech chi'n gwybod.

Roedd yna stori tudalen bron ym mhapur y Guardian (un Llundain nid Rhydaman) ychydig yn ôl a, ddiweddi Medi, roedd yna ddiwrnod agored yn Neuadd Fictoria.

Hyd y dealla' i, ychydig iawn o siaradwyr Cymraeg sy'n ymwneud â'r syniad hyd yn hyn - er nad oes modd i'r cynllun lwyddo heb gefnogaeth y mwyafrif.

Dydi'r enw ddim yn help. Mae tref drawsnewidiol yn swinio fel ardal lle mae dynion yn gwisgo fel menywod a feisi fyrsi. Tref newid byd fyddai'n well.

Y syniad ydi fod ardaloedd yn dechrau paratoi'n awr am y newid byd sydd ar ddod – wrth i olew fynd yn brinnach ac wrth i'r ddaear gynhesu.

Yn hytrach na chael ein gorfodi i newid, medden nhw, mae'n well cymryd camre ein hunain a threfnu ein bywydau, ein busnesau a'n cymuned yn barod ar gyfer y newid.

Mae llawer o'r syniadau yn gwneud sens beth bynnag. Mae bwyd lleol yn well na bwyd o bell, mae cefnogi siopau lleol yn well na chefnogi cwmnïau mawr di-wyneb ac mae trafnidiaeth gyhoeddus (os oes gyda chi'r fath beth) yn well na mynd i bobman mewn car.

Mae peth o hyn eisoes yn bosib yn ardal Llanbed ac mae yna botensial i ni wneud llawer mwy. Ond, mewn ardal fel hon, mae yna un elfen arall sy'n hanfodol.

Mae'r diwylliant lleol yn gymaint rhan o sicrhau dyfodol tymor hir â dim arall. Dyna sy'n rhoi ynni ac ysbryd ac yn sicrhau fod bywyd y gymdeithas yn parhau yn gymharol gryf a gwâr.

Rhywsut mae'n rhaid i ni helpu'r bobol sy'n symud i mewn yma i ddeall na fyddai'r ardal mor braf i fyw ynddi, nac mor hardd, oni bai am y diwylliant a'r ffordd o fyw sydd wedi ei chreu a'i chynnal hi.

Fydd yna ddim dyfodol cynladwy heb iddyn nhw ddod yn rhan o'r diwylliant hwnnw a sylweddoli mai'r un pethau sy'n bygwth y blaned ag sy'n bygwth y Gymraeg a'n broydd ni.

Mae newid byd yn golygu mwy na chynhyrchu compost.

Mae ieched yn ôl yn y newyddion a sôn bod Llywodraeth Cymru eisio uno rhai o'r ymddiriedolaethau ieched, gan gynnwys rhai sir Dyfed.

Fel gydag ysbytai, mae'n naturiol fod pawb yn ymateb yn syth trwy weiddi'n uchel, “Na!” Mae yna ofn y bydd gwasanaethau yn mynd ymhellach i ffwrdd a thref fel Llanbed yn colli unwaith eto.

Mae yna reswm arall tros wrthwynebu – ein bod ni wedi cael llond bol ar yr holl newidiadau sy'n cael eu gwneud a'u dadwneud ... fel ffordd sy'n cael ei thrwsio ac yna ei chodi wedyn.

Os ydi'r Llywodraeth yn teimlo bod gormod o gyrff ieched yng Nghymru, dim ond ychydig flynyddoedd yn ôl y gwnaethon nhw eu hunain sefydlu'r drefn bresennol a chynyddu'r rhifau.

Er gwaetha' hyn i gyd, mi fydd rhaid cael newidiadau sylfaenol rhyw dro yn y gwasanaeth ieched.

Mae pob gwleidydd yn gwybod hyn hefyd ond yn ofni gwneud dim oherwydd y protestiadau sy'n sicr o godi. Dyna pam fod sôn am ddwy ganolfan i drin problemau'r ymennydd yng Nghaerdydd ac Abertawe a dim un yng ngweddill Cymru.

Dyna pam fod tair ysbyty fawr o fewn dim i'w gilydd yn Abertawe, Llanelli a Chaerfyrddin a dim ond Aberystwyth wedyn ar gyfer yr holl ardal i fyny at Fangor a Wrecsam.

Yr hyn sydd ei angen ydi dychmygu sut y bydden ni'n trefnu pethau, pe baen ni'n dechrau o'r dechrau heddiw. Lle fyddai angen gwasanaethau mawr, a lle fyddai angen gwasanaethau lleol.

Wedyn, mi allwn ni drïo addasu'r system sydd gyda ni i ddod mor agos â phosib at hynny. Mi fyddai'n golygu cau rhai gwasanaethau, ond agor rhai newydd hefyd.

Ac mi fydden ni'n gwybod bod y penderfyniadau'n cael eu gwneud am y rhesymau iawn, nid oherwydd politics a phlwyfoldeb.

### Apêl am feirdd

Cynhelir Stomp rhwng papurau bro yng Ngwesty Llety Parc, Aberystwyth ar nos Sadwrn 3ydd Tachwedd. Rhwydwaith Papurau Bro Cymru sy'n trefnu'r noson. Bwriada Clonc gystadlu ar y noson, ond gofynnir i ddarllenwyr gynorthwyo. Os ydych wedi cystadlu mewn Stomp o'r blaen, neu'n dymuno rhoi cynnig arni, cysylltwch ag un o Fwrdd Busnes Clonc am ragor o wybodaeth.

LLEOL I MI Canolbarth

PAPURAU BRO

NEUADD COFFA

Mae rhannau o'r rhifyn hwn o CLONC ar safwe Cymru'r Byd y BBC:  
[www.bbc.co.uk/cymru/canolbarth/papurau\\_bro/clonc](http://www.bbc.co.uk/cymru/canolbarth/papurau_bro/clonc)






Dôl-Mebyd,  
Pencarreg.

Annwyl blant,

Sut ydych chi? Gobeithio eich bod chi gyd yn iawn ac yn mwynhau nôl yn yr ysgol gyda'ch ffrindiau! Trueni bod yn rhaid i'r tywydd newid. Dyw'r hen Lincyn Loncyn bach ddim yn or-hoff o'r Hydref.

Wel, mae'n braf gweld cynifer ohonoch wedi rhoi cynnig arni y mis hwn eto. Mae clod arbennig yn mynd i Miriam Butcher o Gaerdydd, Tristan Evans o Lanybydder a Betsan Mai o Landysul. Ond yn dod i'r brig y mis hwn mae Cara Evans, Rhosalaw, Talgarreg. Da iawn a llongyfarchiadau mawr i chi gyd. Cofiwch fynd ati i liwio llun y mis nesaf a'i ddanfôn ataf erbyn Hydref 22ain.

Pob hwyl,



**Enw:**

**Cyfeiriad:**

**Enillydd  
y mis!**

**Cara  
Evans**



## WELSH COUNTRY FOODS Ltd

**GAERWEN, YNYS MON**

*Eisiau ŵyn a hen ddefaid o bob math o bwysau yn ddyddiol*



Eich manteision:

- Pris da pob amser
- Gwasanaeth gan ein swyddogion maes profiadol yn rhad ac am ddim
- Cwmni annibynnol yr MLC yn pwysu a graddio'r wyn
- Telir bonws o £1 yr oen am ŵyn sydd yn "Farm assured" o fewn y pwysau 15kg i 21kg a wedi graddio yn E2, E3L, U2, U3L, R2 a R3L.
- Telir bonws am ŵyn sydd yn graddio yn E2, E3L + 15c/kg yn ychwanegol a U2, U3L + 8c/kg yn ychwanegol
- Mae gennym enw da am dalu yn gyflym
- Cludiant am ddim i'r lladd-dy.
- Mae gennym sawl lle i gasglu'r stoc yn eich ardal chi.

Am werthu hen ddefaid ar eich fferm heb gostau?  
Cysylltwch â'n swyddfa da byw yng  
Ngaerwen:

- ☎ 01248 421111 (Est 100 a 102)
- Adrian Roberts 📞 07967 677479
- Cyd-lynnydd Da-Byw 📞 07967 987775

A oes diddordeb gennych mewn ymuno â'n  
tîm profiadol o swyddogion maes –  
galwch y Rheolwr da byw sef  
Adrian Roberts am sgwrs anffurfiol.



## Dathlu Adeilad Newydd Ysgol Ffynnonbedr



Aelodau Cyngor y Dref a drefnodd Ddawns Haf i ddisgyblion Ysgol Gynradd Ffynnonbedr ar achlysur agor adeilad newydd sbon ar safle newydd ger yr ysgol gyfun yn y dref. Gwelir rhai o'r disgyblion hefyd a fu'n llwyddiannus yn Adran Celf a Chrefft Eisteddfod Pantyfedwen Llanbedr Pont Steffan.

## Dathlu 140 Ysgol Gynradd Llanwenog



Cyn ddisgyblion a ffrindiau yn mwynhau hel atgofion ac edrych ar yr arddangosfeydd yn Ysgol Gynradd Llanwenog ar achlysur dathlu pen-blwydd yr ysgol yn 140 oed. Adrodiad llawn ar dudalen 10.

## Gordon Ramsay yn Llambed



Y cogydd enwog Gorgon Ramsay a fu'n gwneud rhaglen deledu yn nhafarn Fish & Angor, Capelygroes yn ddiweddar ac a fu ar ymweliad â Llanbedr Pont Steffan hefyd. Bu'n cael tinaeth yn Panacea, Stryd y Coleg, a galwodd yn yr Ysgol Gyfun. Adroddiad yr Ysgol Gyfun ar dudalen 14.

## Amaethwyr yn ymweld â'r Cynulliad



Aelodau Cylch Trafod Amaethyddol Llambed yn cwrdd â'r Gweinidog Amaeth Elin Jones AC yn y Cynulliad Cenedlaethol yng Nghaerdydd.